

Polisiau, Safonau a Phrotocolau Diwygiedig

**wrth
ddarparu
Sgrinio
Cyn Geni yng
Nghymru**



Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n ddiolchgar i is-grwpiau Sgrinio Cyn Geni Cymru ac i'r Grwpiau Rheoli Aml-broffesiynol Lleol am eu help a'u cyngor wrth i'r ddogfen hon gael ei chreu.

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ynglŷn â'r safonau a'r protocolau hyn rhwng mis Ebrill a Mehefin 2009.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n ddiolchgar iawn i bawb a roddodd ymateb i'r ddogfen ymgynghorol. Aeth Grŵp Rheoli Aml-broffesiynol Cymru Gyfan (AWMMG) ati i adolygu'r holl ymatebion, ac ymgorfforwyd y newidiadau a argymhellodd y Grŵp yn y ddogfen hon.

Mae'r ddogfen hon ar gael o swyddfa Sgrinio Cyn Geni Cymru:

Sgrinio Cyn Geni Cymru
18 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ
029 2078 7837

© Hawlfraint 2010 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae pob hawl wedi'i gadw. Chewch chi ddim atgynhyrchu rhan o'r ddogfen neu'r ddogfen gyfan heb ofyn am ganiatâd perchennog yr hawlfraint.

Rhagair	5
1.0 Rhagarweiniad	7
2.0 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen	9
3.0 Trefniadau Rheoli	11
4.0 Sgrinio Cyn geni am HIV, Hepatitis B, Siffilis a'r Tueddiad i gael Rwbela	13
5.0 Sgrinio Cyn geni am Gryman-gell a Thalasaemia	29
6.0 Sgrinio Cyn geni am Syndrom Down	37
7.0 Sgrinio Uwchsain mewn Beichiogrwydd	45
8.0 Sgrinio Cyn geni i Adnabod y Grŵp Gwaed ac i Fesur Gwrthgyrff	53
Rhestr o'r rhai ymatebodd i'r ddogfen ymgynghorol	59
Cyfeiriadau	60
Nodiadau esboniadol	62

Rhagair

Mae'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru'n cynnig profion sgrinio cyn geni fel rhan o'r rhaglen o ofal cyn geni ar gyfer menywod beichiog. Mae nifer o wahanol resymau dros gynnig profion sgrinio cyn geni. Oherwydd hyn, mae sgrinio cyn geni'n rhaglen gymhleth sydd â nifer o wahanol bwrpasau, ac ystyriaethau a goblygiadau unigryw.

Pwrpas sgrinio cyn geni yng Nghymru yw:

- *Canfod cyflyrau penodedig difrifol yn naill ai'r fam neu'r babi sy'n debygol o effeithio'n ddrwg ar iechyd y naill neu'r llall. Mae math effeithiol o ymyriad ar gael ar gyfer y cyflyrau dan sylw, a rheswm da dros ei ddefnyddio.*
- *Yn achos rhai cyflyrau, mae triniaeth ar gael yn ystod y cyfnod cyn geni neu ar ôl y geni a fyddai'n atal y cyflwr ac yn gwella iechyd y babi.*
- *Yn achos cyflyrau eraill, nid oes triniaeth ar gael i atal y cyflwr er bod modd ei adnabod yn ystod y cyfnod cyn geni. Ar ôl cael cyngor o safon, mae menyw'n gallu penderfynu ar sail gwybodaeth a yw'n awyddus i'r beichiogrwydd barhau, ac mae'n bosib cynnig cymorth addas iddi ar sail y penderfyniad y mae hi'n ei wneud (Dewisiadau, Ymddiriedolaeth GIG Felindre 2002).*

Ym mis Ebrill 2003, cytunodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y dylid sefydlu Rhwydwaith Clinigol wedi'i Reoli ar gyfer sgrinio cyn geni yng Nghymru. Sylfaen y rhwydwaith fyddai'r egwyddorion yn adroddiad y project ar sgrinio cyn geni Dewisiadau – Argymhellion ar gyfer Darparu a Rheoli Sgrinio Cyn Geni yng Nghymru (Ymddiriedolaeth GIG Felindre, 2002). Mae'r rhwydwaith yn cael ei alw'n Sgrinio Cyn Geni Cymru ac mae'n gweithredu dan ofal lechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r Gwasanaethau Sgrinio.

Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Sgrinio Cyn Geni Cymru fynd ati, fel rhan o'i waith cychwynnol, i greu polisiau, safonau a fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad sgrinio cyn geni gyda'r bwriad o wella safon y gwasanaethau sgrinio sydd ar gael i fenywod. Cyhoeddodd Sgrinio Cyn Geni Cymru ei safonau a'i brotocolau cyntaf ym mis Rhagfyr 2005, ac fe gawsant eu hadolygu yn ystod 2009.

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ynglŷn â'r safonau a'r protocolau hyn rhwng mis Ebrill a Mehefin 2009. Cafwyd 17 o ymatebion i'r ddogfen gan gyrff ac 11 gan unigolion. Mae Grŵp Rheoli Aml-broffesiynol Cymru Gyfan (AWMMG) wedi adolygu'r holl ymatebion ac wedi gwneud nifer o adolygiadau sylweddol i'r ddogfen ymgynghorol.

Mae'r rhaglen wedi defnyddio cerdyn sgorio cytbwys i fonitro'r broses o roi'r gwelliannau ar waith er mwyn cyflawni disgwyliadau'r safonau gwreiddiol. Bydd y rhaglen yn parhau i adrodd am y gwaith monitro hwn bob chwe mis. Mae hi hefyd wedi creu fframwaith archwilio i hwyluso'r gwaith o gadw cofnodion ac o wneud archwiliadau yn ardaloedd y byrddau iechyd sy'n darparu'r gwasanaethau. Bydd yr holl ddogfennau hyn yn cael eu diweddarau i gynnwys y newidiadau sy'n ofynnol i gyrraedd y safonau newydd.

Safon C4

Cyn iddi gael y profion hyn, rhaid i'r fenyw roi ei chaniatâd llafar sydd wedi'i seilio ar wybodaeth.

- (1) Nid oes angen caniatâd ysgrifenedig ond rhaid i'r fydwraig gofnodi caniatâd llafar y fenyw yn y nodiadau mamolaeth.
- (2) Os yw'r fenyw'n gwrthod sgrinio am HIV, hepatitis B neu sifflis, dylai'r fydwraig ofalu bod y fenyw wedi cael gwybodaeth gywir fel sail i'w phenderfyniad.
- (3) Dylai menywod sy'n gwrthod prawf sgrinio am HIV, hepatitis B neu sifflis gael cyfle ysgrifenedig neu lafar arall i'w gael yn ystod eu beichiogrwydd. Yr adeg orau yw'r apwyntiad yn ystod wythnos 28.

Datganiad o'r safon sydd wedi'i rhifo



Rhestr o brotocolau i ategu'r gwaith o roi'r safon ar waith yn llawn trwy:

- *gynnig gwybodaeth ychwanegol i weithwyr iechyd proffesiynol ynglŷn â chyflawni'r safon*
- *y gofynion o ran camau gweithredu ychwanegol*
- *y pethau sydd wedi'u heithrio*
- *y pethau sydd wedi'u cynnwys*
- *y dogfennau sy'n ofynnol*
- *y gofynion o ran rheoli risg a rheolaeth*
- *y gofynion o ran cyfeirio*



1.0 Rhagarweiniad

Mae nifer o ddogfennau cenedlaethol pwysig (ar gyfer y Deyrnas Unedig) yn cynnal y gwaith o sgrinio cyn geni, ac mae gwaith y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol (UK NSC) yn mynd yn ei flaen. Mae'r safonau diwygiedig hyn yn ategu holl argymhellion NICE (y sefydliad cenedlaethol dros iechyd a ragoriaeth glinigol), UK NSC, safonau cenedlaethol labordai penodol, cyngor y colegau brenhinol a'r modelau o'r arferion gorau. Wrth ystyried y safonau a'r protocolau hyn, dylid rhoi sylw i'r argymhellion sydd yn y dogfennau ategol, er enghraifft, canllawiau'r cyrff proffesiynol a'r colegau brenhinol, a safonau Cronfa Risg Cymru.

Ar ôl cyhoeddi yn 2005 safonau a phrotocolau ar gyfer sgrinio cyn geni sy'n gyson ar draws Cymru gyfan, a gweld rhwydwaith Sgrinio Cyn Geni Cymru'n cynnig fframwaith o gymorth clinigol, daeth yn bosib i'r holl randdeiliaid weithio'n agos er mwyn gwella rhaglen sgrinio cyn geni. Mae gwell gwasanaethau sgrinio cyn geni ar gael ar gyfer menywod beichiog sy'n dechrau eu gofal yn gynnar. Erbyn hyn, mae'n fwy tebygol y byddan nhw'n cael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig yn brydlon am y profion sgrinio sydd ar gael. Mae'r wybodaeth honno'n mynd wedyn yn sail i'w penderfyniadau ynglŷn â derbyn neu wrthod sgrinio cyn geni. Mae'r profion sgrinio ar gael yn fwy prydlon, ac mae trefn yn bodoli hefyd sy'n golygu bod menywod yn cael canlyniadau eu profion sgrinio'n brydlon.

Yn ystod haf 2008, aeth cydgysylltydd cenedlaethol y rhaglen a'r cydgysylltwyr yn rhanbarthau Cymru ati i wneud adolygiad o'r gwasanaethau sgrinio cyn geni. Trwy ddefnyddio holiadur lled ffurfiol ac ymweld â safleoedd, roedd yn bosib asesu sut mae'r safonau presennol yn cael eu cyflawni, a phwyso a mesur y manau lle y byddai safonau ychwanegol yn helpu i wella'r gofal. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wrth wneud yr adolygiad hwn ac wrth ddefnyddio'r cerdyn sgorio cytbwys, a'r cyngor a gafwyd gan dri Grŵp Rheoli Aml-broffesiynol Lleol (LMMGs) Sgrinio Cyn Geni Cymru a'i dri Is-grŵp Aml-broffesiynol, wedi mynd yn sail i'r broses ymgynghori a'r safonau a'r protocolau newydd sydd wedi'u cytuno.

Cafodd safonau a phrotocolau eu datblygu a'u cyhoeddi ym mis Ebrill 2008 fel sail i amniocentesis a CVS (samplu filysau corionig). Mae'r rhain yn brofion mewnwthiol a allai fod gofyn i fenyw eu cael os yw sgrinio cyn geni'n tynnu sylw at broblem ac mae hi'n fodlon cael profion diagnostig. Mae'r safonau a'r protocolau ar eu cyfer ar gael ar wefan y rhaglen www.antenatalscreening.org

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wrthi'n datblygu llwybrau gofal i gynnal y rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru, a byddan nhw ar gael ar www.mapofmedicine.com.

Dyluniad y ddogfen

Mae'r arlliwio glas yn y ddogfen yn tynnu sylw at y safonau ar gyfer sgrinio cyn geni yng Nghymru. Mae'r protocolau ategol sy'n cael eu hargymell yn eu dilyn, fel y mae'r enghraifft ar y chwith yn dangos.

Mae'r rhifau mewn cromfachau ar ôl safon neu brotocol yn cyfeirio at nodyn esbonio. Mae'r rhain i'w gweld ar dudalennau 62 a 63.

2.0 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen

2.1 Cefndir

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd creu trefniadau llywodraethu addas ar gyfer rhaglenni sgrinio, ac mae Fframwaith Gweithredu Cymru Gyfan ar gyfer 2008-09 (WHC 2007, 086) yn dweud:

3.24 Sgrinio

Yn 2008/2009, rhaid i Ymddiriedolaethau allu rhoi tystiolaeth fod camau llywodraethu clinigol clir wedi cael eu sefydlu i ofalu mai diogelwch y claf yw'r peth pwysicaf un.

Nid yw Sgrinio Cyn Geni Cymru ei hun yn darparu nac yn rheoli'n uniongyrchol unrhyw wasanaethau sgrinio cyn geni. Grŵp Rheoli Cymru Gyfan a'r tri Is-grŵp sy'n gyfrifol am lywodraethu gwaith y rhaglen. Mae pob agwedd ar waith Sgrinio Cyn Geni Cymru dan ofal y Gwasanaethau Sgrinio, sy'n rhan o lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gan y corff hwn brofiad helaeth yn y gwaith o reoli a darparu rhaglenni sgrinio.

2.2 Llywodraethu'r Gwasanaeth

Y Bwrdd lechyd sy'n darparu'r gofal sy'n gyfrifol am ddarparu sgrinio cyn geni. Yn yr un ffordd, y gwahanol Fyrddau lechyd sy'n gyfrifol am roi protocolau sgrinio cyn geni ar waith er mwyn cyraedd y safonau sydd wedi'u cynnig.

Fel rhan o fframwaith llywodraethu'r Bwrdd lechyd ar gyfer sgrinio cyn geni, yr argymhellion yw:

- Y dylai'r Bwrdd lechyd anelu at ddarparu gwasanaethau sy'n cyflawni'r safonau a'r protocolau mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi'u hargymhell, yn cynnwys y safonau a'r protocolau sy'n berthnasol i brofion amniocentesis a samplu filws corionig (CVS) a gafodd eu cyhoeddi ar wahan.¹
- Y dylai'r Bwrdd lechyd gael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau clinigol trwy'r system adrodd am ddigwyddiadau clinigol.
- Os, ar ôl i ddarparwr y gwasanaeth ei adnabod a gwneud archwiliad cychwynnol, yw digwyddiad sgrinio cyn geni clinigol wedi cael ei achosi gan nam ar y system a allai, ym marn y gwasanaeth, fod yn bresennol mewn gwasanaethau eraill yng Nghymru, dylai'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni neu reolwr risg y Bwrdd lechyd roi gwybod i Sgrinio Cyn Geni Cymru cyn gynted â phosib. Bydd y rhaglen yn gallu ystyried wedyn a oes angen gweithredu neu gynnig canllawiau ychwanegol i leihau'r risg o weld yr un nam yn codi mewn gwasanaethau eraill.

2.3 Llwybrau sgrinio

Mae gofyn datblygu llwybrau gofal lleol fel sail i sgrinio cyn geni. Bydd y llwybrau'n disgrifio trefniadau'r gwahanol fyrddau lechyd ar gyfer:

- rhoi gwybodaeth am y prawf o flaen llaw, a chynnig y prawf
- gofyn am a darparu'r prawf
- dull o drin canlyniadau pob prawf
- gwasanaethau ar gyfer cynnig cyngor a chymorth ym maes sgrinio cyn geni
- gofalu bod amserlenni cytûn yn cael eu dilyn a bod trefniadau monitro'n cael eu bodloni
- y gofal sydd ei angen cyn ac ar ôl y geni, a'r gofal dilynol
- cyfeirio at asiantaethau eraill os oes angen.

¹ Amniocentesis a Samplu Fylsau Corionig – Polisiâu, Safonau a Phrotocolau (2008).
Ar gael ar www.antenatalscreeningwales.org

3.0 Trefniadau Rheoli

Mae'n hanfodol bod rhaglen sgrinio cyn geni'n cael ei rheoli'n effeithiol. Dylai'r trefniadau rheoli sy'n dilyn fod yn sail i raglen sgrinio cyn geni'r Bwrdd Iechyd.

3.1 Cydgysylltu'r rhaglen

Safon M 1

Dylai'r Byrddau Iechyd fod ag obstetregydd, sonograffydd, rheolwr labordy a bydwraig arweiniol sy'n gyfrifol am y gwahanol agweddau ar y rhaglen.

Safon M 2

Dylai'r Byrddau Iechyd sefydlu fforwm sgrinio cyn geni, neu dylai sgrinio cyn geni fod yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd fforwm aml-broffesiynol sydd wedi'i hen sefydlu.

Safon M 3

Dylai'r Byrddau Iechyd enwi cydgysylltydd lleol ar gyfer sgrinio cyn geni. Dylai'r unigolyn hwnnw fod yn gyfrifol am reoli'r rhaglen yn gyffredinol, a dylai fod yn gyfrifol hefyd am:

- (1) gydgyssylltu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sgrinio cyn geni er mwyn i'r gwasanaeth fod yn effeithiol, yn brydlon ac yn briodol
- (2) rhoi polisiau, safonau, protocolau a llwybrau gofal Sgrinio Cyn Geni Cymru ar waith
- (3) arwain y gwaith o archwilio gwasanaethau sgrinio cyn geni ac am adrodd wrth Sgrinio Cyn Geni Cymru am y gwaith o reoli eu perfformiad
- (4) rheoli'r drefn o roi canlyniadau, yn cynnwys cyflwyno systemau sy'n cwtogi ar risg
- (5) datblygu gwasanaeth rhoi gwybodaeth a chynghori sy'n rhan o'r gwasanaeth mamolaeth ar gyfer menywod â phroblemau a ddaeth i'r amlwg wrth sgrinio
- (6) cynllunio a darparu rhaglen o addysg mewn swydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol y sector iechyd sy'n gweithio ym maes sgrinio cyn geni
- (7) creu adroddiad blynyddol i roi gwybod i'r Bwrdd Iechyd am weithgarwch ym maes sgrinio cyn geni
- (8) cydgysylltu'r gwaith o roi gwybodaeth am gleifion i'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cynnig gofal iddyn nhw
- (9) datblygu ac archwilio llwybr gofal ar gyfer ail-gynnig sgrinio am sifffilis, HIV a hepatitis B i fenywod sydd wedi gwrthod y cynnig cyntaf i gael eu sgrinio
- (10) creu a chynnal rhestr o enwau a rhifau cyswllt ar gyfer y labordai er mwyn i'r labordy anfon canlyniadau brys yn brydlon ac yn effeithiol at y gwasanaeth mamolaeth.

3.2 Gwybodaeth i fenywod²

Safon M 4

Dylai'r Byrddau Iechyd drefnu bod menywod yn cael gwybodaeth ysgrifenedig am sgrinio cyn geni yn gynnar yn eu beichiogrwydd.

Safon M 5

Os nad yw'r fenyw'n deall Saesneg neu fod angen dehongli mewn iaith arwyddion arni, dylai'r byrddau iechyd ddefnyddio gwasanaeth dehongli cymeradwy er mwyn iddi gael gwybodaeth gywir i seilio'i chaniatâd arni. I ategu hyn, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n cynnig taflenni gwybodaeth mewn nifer o ieithoedd ac mae DVD ar gael sy'n esbonio'r drefn mewn iaith Arwyddion Prydain.

3.3 Cadw cofnodion

Safon M 6

Dylai gwasanaethau mamolaeth ddefnyddio Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan sy'n cael ei gario yn y llaw. Mae adran ynddo sy'n gosod patrwm pendant ar gyfer cofnodi profion sgrinio cyn geni, er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth bwysig wedi'i chofnodi.

Rhaid gwneud cofnod ar y pryd yn y nodiadau mamolaeth, a'i lofnodi a rhoi'r dyddiad. Rhaid i'r wybodaeth gynnwys:

- enw'r gweithiwr proffesiynol a roddodd wybodaeth i'r fenyw am y prawf sgrinio
- dyddiad cynnig y prawf sgrinio
- penderfyniad y fenyw i dderbyn neu wrthod y prawf sgrinio
- y dyddiad y cafodd y prawf gwaed neu'r sgan uwchsain ei wneud
- anlyniad y prawf
- dyddiad trafod y canlyniad â'r fenyw
- unrhyw ofal dilynol sydd wedi'i gynllunio.

² Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi datblygu ac argraffu gwybodaeth ysgrifenedig am brofion sgrinio cyn geni, ac wedi rhoi'r wybodaeth i fenywod. Mae rhestr o'r taflenni a chopïau ohonyn nhw ar gael ar www.antenatalscreening.org

4.0 Sgrinio Cyn geni am HIV, Hepatitis B, Sifflis a'r Tueddiad i gael Rwbela

Datganiad polisi

Dylai pob menyw sy'n byw yng Nghymru gael cyfle i gael sgrinio cyn geni yn gynnar yn ei beichiogrwydd am:

- HIV (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000; NICE 2008)
- hepatitis B (WHC 1998 (36), NICE 2008)
- sifflis (NICE 2008)
- y tueddiad i gael rwbela (NICE 2008).

HIV (y Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol)

Retrofeirws yw HIV sy'n ymosod ar T-lymffocytau, ac yn eu dinistrio. Mae'n gwanhau system imiwnedd y corff ac yn arwain yn y pen draw at AIDS (syndrom diffyg imiwnedd caffaeledig). Mae'r feirws yn gallu trosglwyddo'n uniongyrchol o'r fam i'r babi yn ystod y beichiogrwydd, ar adeg y geni neu ar ôl y geni trwy fwydo o'r fron.

Y rhesymeg dros Sgrinio Cyn geni am HIV

Y nod yw adnabod menywod sydd â haint HIV yn barod er mwyn cynnig triniaeth a gofal i leihau (o tua 25% i 1%) y perygl o weld y feirws yn trosglwyddo o'r fam i'r babi. Mae adnabod a thrin HIV yn debyg o fod yn llesol iawn i iechyd y fenyw hefyd. Dylai pob uned neu adran fod wedi sefydlu llwybrau cyfeirio clir er mwyn i fenywod beichiog sy'n cael diagnosis o haint HIV gael gofal a thriniaeth gan y timau arbenigol priodol (NICE 2008).

Cyfyngiadau'r rhaglen

Ni fydd y rhaglen sgrinio'n datgelu heintiau diweddar neu achosion o heintio ar ôl i'r fam gael y prawf sgrinio cyn geni. Bydd angen cyngor penodol ar fenywod sydd â risg uchel o gael haint HIV, hepatitis B, sifflis neu fath arall o haint sy'n cael ei throsglwyddo trwy ryw. Bydd angen cyngor penodol ynglŷn â chael profion ychwanegol yn ystod y beichiogrwydd, a'r gwasanaethau iechyd rhywiol yw'r corff gorau i roi'r fath gyngor.

Y canlyniad disgwylidig

Trwy reoli'r beichiogrwydd, y geni a'r gofal ar ôl y geni'n ofalus, bydd hi'n bosib lleihau'n sylweddol ar y nifer o achosion o weld HIV yn trosglwyddo o'r fam i'r babi.

Hepatitis B

Clefyd heintus ar yr iau yw Hepatitis B, sy'n cael ei achosi gan feirws HBV (feirws hepatitis B). Mae'n achosi heintiau aciwt a chronig fel ei gilydd, ac mae'n lledaenu trwy gyswllt uniongyrchol â gwaed rhywun sy'n dioddef o'r haint. Mae'n bosib dod o hyd i'r haint yn rhai o hylifau eraill y corff hefyd, fel semen a phoer. Mae'r rhan fwyaf o oedolion sydd â haint HBV yn gwella'n llwyr o'r haint, ond mae ffurf gronig o'r haint yn gallu datblygu ar rai oedolion. Gallai hyn effeithio ar y babi newydd-anedig.

Mae gweld yr haint yn trosglwyddo'n uniongyrchol o'r fam i'w babi cyn neu yn ystod y geni'n un o'r prif resymau dros weld nifer uchel o achosion o'r haint o hyd mewn rhai rhannau o'r byd. Mae babanod newydd-anedig sy'n cael eu heintio fel hyn yn debygol iawn (tua 90%) o gael eu heintio, ac i fod yn gludwyr cronig o'r feirws hepatitis.

Y rhesymeg dros sgrinio am Hepatitis B

Y nod yw adnabod menywod sy'n cludo hepatitis B ac sydd â gwir berygl o'i drosglwyddo i'w plant ar adeg y geni. Bydd hyn yn hwyluso cynnig rhaglen i atal y clefyd (proffylaxis) i'r babi newydd-anedig ar ôl iddo ddod i gysylltiad â'r feirws.

Cyfyngiadau'r rhaglen

Nod y rhaglen sgrinio yw adnabod menywod sydd â haint hepatitis B sydd wedi'i hen sefydlu. Nid yw'n adnabod menywod a gafodd yr haint yn ystod yr ychydig wythnosau cyn y prawf sgrinio neu ar

ôl i'r prawf sgrinio gael ei wneud. Bydd angen cyngor penodol ar fenywod sydd â risg uchel o gael haint HIV, hepatitis B, sifflis neu fath arall o haint sy'n cael ei throsglwyddo trwy ryw. Bydd angen cyngor penodol ynglŷn â chael profion ychwanegol yn ystod y beichiogrwydd, a'r gwasanaethau iechyd rhywiol yw'r corff gorau i roi'r fath gyngor.

Y canlyniadau disgwylidig

Trwy adnabod y babanod sydd mewn perygl a chynnig rhaglen frechu addas, bydd hi'n bosib lleihau'n sylweddol y nifer o achosion o'r feirws hepatitis B sy'n trosglwyddo o'r fam i'r babi.

Sifflis

Y bacteriw spirochete, *treponema pallidum*, sy'n arwain at haint sifflis. Dim ond pobl sy'n cludo'r bacteriw hwn, ac mae'n gallu cael ei drosglwyddo trwy gysylltiad rhywiol (sifflis oedolion) neu wrth i'r fam ei drosglwyddo i'w ffetws drwy'r brych yn ystod beichiogrwydd (sifflis cynhenid).

Y rhesymeg dros sgrinio am sifflis

Y nod yw adnabod menywod sydd â sifflis yn gynnar yn eu beichiogrwydd, a chynnig triniaeth addas i leihau'n sylweddol y perygl o weld y ffetws yn dal sifflis cynhenid. Mae posibilrwydd y byddai adnabod a thrin y clefyd hwn y mae modd ei drosglwyddo'n llesol hefyd i iechyd y fam.

Cyfyngiadau'r rhaglen

Ni fydd y rhaglen sgrinio'n datgelu heintiau diweddar neu achosion o heintio ar ôl i'r prawf sgrinio cyn geni gael ei wneud. Bydd angen cyngor penodol ar fenywod sydd â risg uchel o gael haint HIV, hepatitis B, sifflis neu fath arall o haint sy'n cael ei throsglwyddo trwy ryw. Bydd angen cyngor penodol ynglŷn â chael profion ychwanegol yn ystod y beichiogrwydd, a'r gwasanaethau iechyd rhywiol yw'r corff gorau i roi'r fath gyngor.

Os yw'r prawf sgrinio'n awgrymu bod haint ar y fam, rhaid i firolegydd ystyried y canlyniad ar y cyd â'i hanes clinigol a chymdeithasol, cyn gwneud unrhyw ddiagnosis.

Y canlyniadau disgwylidig

Trwy gael diagnosis cynnar a chynnig triniaeth addas i'r fam, mae llai o berygl o weld ffetws yn dal sifflis cynhenid.

Rwbela

Clefyd heintus ysgafn yw rwbela (y frech Almaenig). Mae'r haint yn fwyaf cyffredin mewn plant 4-9 mlwydd oed sydd heb gael eu himiwneiddio. Mae'n achosi brech â chochni dros dro, chwydd yn y chwarennau lymff, a phoenau yn y cymalau weithiau. Nid yw'n achosi problemau yn y tymor hir i blant sy'n cael yr haint ar ôl eu geni.

Mae haint rwbela ar fam yn ystod 8-10 wythnos gyntaf y beichiogrwydd yn niweidio'r ffetws mewn tua 90% o'r achosion. Mae'r risg o weld nam ar y ffetws yn gostwng i 10-20% erbyn wythnos 16 o'r cyfnod cario. Ar ôl y cam hwn yn y cyfnod cario, mae'r achosion o niwed i'r ffetws yn brin iawn.

Y rhesymeg dros sgrinio am dueddiad i gael rwbela

Y nod yw adnabod tueddiad mewn menywod bechiog i gael rwbela (hynny yw, gwrthgyrff sy'n is na 10 IU/ml). Os yw sgrinio'n dangos bod tueddiad yn bresennol, mae cyfle i gynghori'r fenyw ynglŷn ag imiwneiddio rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela (brechlyn MMR) ar ôl i'w beichiogrwydd ddod i ben. Dylai menywod sydd â thueddiad i gael rwbela gael cyfle trwy'r gwasanaeth mamolaeth i gael y brechiad MMR ar ôl i'w beichiogrwydd ddod i ben.

Cyfyngiadau'r rhaglen

Pwrpas sgrinio yw asesu'r tueddiad i gael rwbela yn ystod y cyfnod cyn geni. Nid yw'n caniatáu brechu yn ystod y beichiogrwydd. Nid yw'r sgrinio'n adnabod haint rwbela ar y fam, ac nid yw'n rhwystro'r babi rhag dal rwbela cynhenid yn ystod y beichiogrwydd presennol.

Y canlyniadau disgwylidig

Trwy frechu ar ôl y beichiogrwydd, mae'n bosib lleihau'r posibilrwydd o weld y fam yn dal rwbela mewn unrhyw feichiogrwydd sy'n dilyn.

4.1 Y Safonau a'r Protocolau Cyffredinol ar gyfer Sgrinio Cyn geni am HIV, Hepatitis B, Sifflis a'r Tueddiad i gael Rwbela

4.1.1 Gwybodaeth cyn y prawf

Safon C 1

Cyn y prawf, rhaid i'r fenyw gael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig am heintiau mewn beichiogrwydd. Rhaid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth pa wybodaeth mae hi wedi'i chael.

- (1) Dylai'r fenyw gael copi o becyn gwybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru (mewn iaith a fformat addas, os ydyn nhw ar gael) cyn gofyn iddi roi ei chaniatâd i'r prawf gael ei wneud. (1)
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio pwrpas, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y profion sgrinio hyn i'r fenyw. (2)
- (3) Dylai'r fydwraig gofnodi pa wybodaeth ysgrifenedig y mae hi wedi'i rhoi i'r fenyw, a chofnodi unrhyw wybodaeth ar ffurf arall (er enghraifft, gwybodaeth ar DVD neu CD sain). (3)
- (4) Mae mwy o wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth ar gael i fenywod trwy'r Gwasanaeth Meddygaeth Genhedlol-Droethol (GUM) neu Iechyd Rhywiol.

4.1.2 Cynnig y prawf sgrinio

Safon C 2

Dylai pob menyw sy'n byw yng Nghymru gael cyfle i gael prawf sgrinio cyn geni am HIV, hepatitis B, sifflis a'r tueddiad i gael rwbela.

- (1) Dylid manteisio ar y cyfle cyntaf posib i gynnig sgrinio am HIV, hepatitis B, sifflis a'r tueddiad i gael rwbela i fenywod sy'n dechrau eu gofal cyn geni ar ôl wythnos 13 o'r beichiogrwydd.
- (2) Dylai menywod sy'n gwrthod y prawf sgrinio gael cyfle ysgrifenedig neu lafar arall i'w gael yn ystod eu beichiogrwydd. Yr adeg orau yw'r apwyntiad yn ystod wythnos 28.
- (3) Dylid cynnig sgrinio am HIV, hepatitis B a sifflis i fenywod sy'n methu eu sesiynau gofal cyn-geni ac sy'n dod i'r ysbyty pan mae'r esgoriad wedi dechrau. Dylid cynnig y prawf sgrinio wrth iddyn nhw gael eu derbyn i'r uned geni. Dylai'r fydwraig neu'r meddyg gysylltu â'r microbiologydd ymgynghorol i ofyn am asesiad risg ac i benderfynu a oes angen gwneud profion ar frys a sut mae rheoli'r achos wrth aros am y canlyniadau.

Safon C 3

Dylai'r fydwraig sy'n gofalu am fenyw sydd heb gael cyfle i gael prawf sgrinio am HIV, hepatitis B neu sifflis yn ystod y cyfnod cyn y geni neu yn ystod y geni ei hun, gynnig y profion hyn yn syth ar ôl y geni (o fewn pedair awr i adeg yr esgoriad).

4.1.3 Caniatâd

Safon C 4

Cyn iddi gael y profion hyn, rhaid i'r fenyw roi ei chaniatâd llafar sydd wedi'i seilio ar wybodaeth.

- (1) Nid oes angen caniatâd ysgrifenedig ond rhaid i'r fydwraig gofnodi caniatâd llafar y fenyw yn y nodiadau mamolaeth.
- (2) Os yw'r fenyw'n gwrthod sgrinio am HIV, hepatitis B neu sifflis, dylai'r fydwraig ofalu bod y fenyw wedi cael gwybodaeth gywir fel sail i'w phenderfyniad.
- (3) Dylai menywod sy'n gwrthod prawf sgrinio am HIV, hepatitis B neu sifflis gael cyfle ysgrifenedig neu lafar arall i'w gael yn ystod eu beichiogrwydd. Yr adeg orau yw'r apwyntiad yn ystod wythnos 28.

4.1.4 Gwneud cais am brawf

Safon C 5

Rhaid i ffurflen gais y labordy gynnwys enw a llofnod y sawl sy'n gofyn am y prawf. Rhaid i ddull electronig o ofyn am brawf fod â llwybr archwilio clir ar gyfer adnabod y sawl sy'n gofyn amdano. (4)

Safon C 6

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf lenwi a llofnodi'r ffurflen gais. (4)

Safon C 7

Rhaid i'r geiriau `sgrinio cyn geni' ddynodi natur y cais.

Safon C 8

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol ar y ffurflen gais i'r labordy.

Safon C 9

Os yw un ffurflen gais yn cael ei defnyddio ar gyfer nifer o brofion sgrinio, rhaid dangos yn glir arni'r profion sgrinio mae'r fenyw wedi rhoi ei chaniatâd ar eu cyfer, a'r rhai y mae hi wedi'u gwrthod.

- (1) Os oes mwy na 24 wythnos o'r cyfnod cario wedi mynd heibio ar adeg cymryd y sampl, rhaid nodi bod angen sylw brys ar y sampl. Dylai'r labordy brosesu'r sampl cyn gyntedd â phosib
- (2) Os yw'r babi ar fin cael ei eni ar adeg cymryd y sampl, neu os yw'r babi wedi cael ei eni, dylai'r fydwraig gysylltu â'r microbiologydd ymgynghorol i ofyn am asesiad risg ac i benderfynu a oes angen gwneud profion ar frys a sut mae rheoli'r achos wrth aros am y canlyniadau.

4.1.5 Trefn y prawf

Safon C 10

Lle bynnag y mae hynny'n bosib, dylai'r sampl gael ei chymryd cyn wythnos 13 o'r beichiogrwydd.

Safon C 11

Rhaid i'r sawl sy'n cymryd y sampl gofnodi yn y nodiadau mamolaeth y dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd, a rhaid i'r person hwnnw lofnodi'r cofnod.

- (1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a gwneud y prawf gwaed mewn lle sy'n sicrhau ei phreifatrwydd.
- (2) Y ffordd fwyaf cost effeithiol o wneud y prawf sgrinio hwn yw ei wneud o un sampl ar gyfer profion sgrinio cyn geni am HIV, hepatitis B, sifffilis a'r tueddiad i gael rwbela. Mae'n bosib defnyddio un sampl 5ml mewn tiwb plaen i wneud unrhyw gyfuniad o'r profion sgrinio hyn.

Safon C 12

Rhaid i'r gwasanaethau mamolaeth ddatblygu system glir ar gyfer cadarnhau i bwy mae sampl yn perthyn.

- (1) Rhaid i'r drefn hon gynnwys gofyn i'r fenyw gadarnhau ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad. Rhaid i'r rhain fod yn gwbl gyson â'r wybodaeth ar y ffurflen gais a'r sampl.

4.1.6 Gwasanaethau labordai

Safon C 13

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol dan drefn achredu patholegol clinigol (CPA, sydd bellach yn rhan o UKAS (gwasanaeth achredu'r Deyrnas Unedig)). Rhaid bod y labordy'n gallu rhoi tystiolaeth fod ei berfformiad yn foddhaol.

Safon C 14

Dylai'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd eich chymryd. *Isafswm safon 90%*

Safon C 15

Os yw'r sampl yn cael ei hanfon at labordy arall, dylai gyrraedd y labordy arall o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei chymryd. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

Safon C 16

Dylai'r labordy sy'n gwneud y prawf anelu at anfon canlyniadau samplau sydd heb frys o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad y daeth y sampl i law. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

Safon C 17

Dylai samplau sydd wedi'u marcio `ar frys' gael eu prosesu cyn gynted â phosib, gan anfon yr adroddiadau cyn gynted â phosib hefyd.

Safon C 18

Rhaid bod sylw clinigol yn adroddiadau'r labordy sy'n hwyluso'r broses o ddehongli'r canlyniadau.

4.1.7 Y canlyniadau

Safon C 19

Dylai'r Bwrdd Iechyd ofalu nad yw canlyniadau profion sgrinio cyn geni am HIV, hepatitis B neu sifflis yn cael eu hanfon yn electronig o'r labordy i'r gwasanaethau mamolaeth neu i fath arall o wasanaeth oni bai fod camau diogelu addas wedi cael eu sefydlu sy'n gofalu nad oes unrhyw un heblaw'r unigolion sydd wedi'u henwi'n cael gweld y canlyniad.

Safon C 20

Os nad y labordy lleol sydd wedi gwneud y prawf ar y sampl, dylai'r canlyniad gael ei anfon yn ôl i'r labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaeth y labordy arall gwblhau'r prawf. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

Safon C 21

Dylai'r canlyniad fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaeth y labordy lleol y prawf neu i'r dyddiad y daeth y canlyniad i law o'r labordy a oedd yn gwneud y prawf. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

- (1) Dylai'r canlyniadau gael eu rhoi i'r tîm clinigol sy'n gofalu am y fenyw yn ystod ei beichiogrwydd. Ni ddylai labordai roi canlyniadau i weithwyr iechyd proffesiynol dros y ffôn fel arfer, oni bai fod rheswm clinigol da dros wneud hynny sy'n effeithio'n syth ar y broses o reoli gofal y claf.

Safon C 22

Rhaid i'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni greu a chynnal rhestr o enwau a rhifau ffôn cyswllt er mwyn hwyluso trosglwyddo canlyniadau brys yn effeithiol ac yn brydlon.

Safon C 23

Dim ond ar ôl defnyddio dull gwahanol i'r un gwreiddiol i gadarnhau'r canlyniad y dylid rhoi gwybod i'r claf am ganlyniad positif i brawf am HIV, hepatitis B a sifflis.

Safon C 24

Rhaid bod trefn ysgrifenedig wedi cael ei chreu a'i chytuno ar gyfer mynd ar ôl canlyniadau sydd heb ddod i law'r gwasanaeth mamolaeth a rhai lle mae'r labordy'n gofyn am sampl ychwanegol.

Safon C 25

Lle nad oes unrhyw broblemau'n dod i'r amlwg, dylai'r gwasanaeth mamolaeth roi'r canlyniadau i'r fenyw o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd. *Isafswm safon 90%*

Safon C 26

Rhaid cofnodi'r canlyniad yn y nodiadau mamolaeth.

- (1) Ar ôl trafod y canlyniad gyda'r fenyw, dylid cofnodi hynny yn y nodiadau mamolaeth, a dylid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.
- (2) Dylid atgoffa menywod ynglŷn â'r dulliau o'u diogelu eu hunain rhag cael eu heintio yn y dyfodol.

4.2 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn geni am HIV

4.2.1 Haint flaenorol

Safon C 27

Os yw'r fenyw'n rhoi gwybod ei bod wedi cael diagnosis blaenorol o HIV, dylid ei sgrinio unwaith eto i gadarnhau'r diagnosis. Dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais.

Safon C 28

Dylid cyfeirio menywod sy'n gwybod eu bod yn HIV-bositif at y gwasanaeth GUM/Iechyd Rhywiol er mwyn hwyluso'r broses o greu cynllun gofal ar y cyd.

4.2.2 Canlyniadau HIV-bositif

Safon C 29

Dylai'r labordy roi gwybod o fewn un diwrnod gwaith i'r obstetregydd ymgynghorol a'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni (neu ddirprwy sydd wedi'i enwi) am ganlyniad HIV-bositif i'r prawf.

Safon C 30

Lle bynnag y bo hynny'n bosib, rhaid rhoi'r canlyniad i'r fenyw o fewn pum diwrnod gwaith.

- (1) Dylid trefnu i fenywod beichiog ddod yn ôl cyn gynted â phosib a phan mae'r gweithwyr iechyd proffesiynol angenrheidiol ar gael, i'r clinig cyn geni i gael canlyniad positif i brawf HIV.
- (2) Dylid trefnu gwasanaethau cyfieithu os oes angen.
- (3) Mae HIV yn haint ddigon prin yng Nghymru. Dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau addas (hynny yw, obstetregydd ymgynghorol neu cydgysylltydd sgrinio cyn geni gyda chymorth aelod o'r tîm HIV arbenigol yn unol â chyfarwyddiadau'r Bwrdd Iechyd), a ddylai roi'r canlyniad i'r fenyw.
- (4) Dylai canlyniadau sensitif, yn cynnwys rhai positif ynglŷn â chlefydon y mae modd eu trosglwyddo, gael eu rhoi mewn clinig (nid yng nghartref y fenyw). Bydd gan y gweithiwr iechyd proffesiynol fwy o reolaeth mewn clinig dros gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

- (5) Er mwyn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, dylai'r fenyw gael y canlyniad yn bersonol ac ar ei phen ei hun heb fod â pherthnasau neu ffrindiau'n bresennol.
- (6) Oni bai mai'r meddyg teulu sydd wedi gofyn am y prawf a'r meddyg ei hun a fydd yn rhoi'r canlyniad i'r fenyw, ni ddylid rhoi gwybod i'r meddyg teulu am y canlyniad tan fydd y fenyw wedi rhoi ei chaniatâd i hynny gael ei wneud.
- (7) Er mwyn cadarnhau'n gwbl bendant i bwy mae'r sampl yn perthyn, bydd gofyn cymryd ail sampl.
- (8) Dylid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig (mewn iaith briodol os yw ar gael) i'r fenyw. Mae taflen wybodaeth addas ar gael o Sgrinio Cyn Geni Cymru.

4.2.3 Cadw cofnodion

Safon C 31

Yn achos canlyniad positif i brawf HIV, rhaid cofnodi'n brydlon yn y nodiadau mamolaeth yr holl gamau a gafodd eu cymryd a'r math o ymateb sydd wedi'i fwrriadu. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

- (1) Ni ddylid ysgrifennu canlyniad positif i brawf HIV yn y nodiadau mae'r fenyw'n eu dal yn ei llaw, heb ofyn am ei chaniatâd yn gyntaf.
- (2) Ar ôl cael caniatâd deallus y fenyw dylid cofnodi canlyniad positif sydd wedi'i gadarnhau yn system wybodaeth y gwasanaeth mamolaeth.
- (3) Dylai'r cofnod o'r canlyniad positif pendant gael ei ysgrifennu mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty. Dylai polisïau'r Bwrdd Iechyd warantu cyfrinachedd y wybodaeth.

4.2.4 Cynllun gofal

Safon C 32

Er mwyn dechrau triniaeth addas yn brydlon, mae gofyn cyfeirio'r fenyw at y Gwasanaeth GUM/Iechyd Rhywiol (neu Ymgynghorydd Clefydon Heintus).

- (1) Bydd angen cynnig sgrinio am HIV trwy'r Gwasanaeth GUM/Iechyd Rhywiol i unrhyw un sydd wedi cael cysylltiad rhywiol â'r ferch.
- (2) Dylid creu cynllun gofal cynhwysfawr yn unol â chanllawiau BHIVA. Dylid trafod y cynllun gyda'r fenyw a dilyn cyngor tîm amlddisgyblaethol. Gallai hyn olygu nifer o ymweliadau a sesiynau trafod. Bydd angen rhoi digon o amser i'r fenyw ystyried ei diagnosis cyn y gall y broses o gynllunio'r gofal ddechrau. Bydd y math o ofal y mae ar y fenyw ei angen yn dibynnu ar ei llwyth firaol a nifer o ffactorau eraill, a rhaid i'r tîm HIV arbenigol reoli ei gofal.
- (3) Ar adeg briodol yn ystod y cyfnod cyn geni, dylid cyfeirio'r achos at baediatregydd.
- (4) Bydd angen i fydwraig wedi'i henwi gynorthwyo'r fenyw'n gyson o hyn ymlaen, a dylai'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni gydgyssylltu holl drefniadau'r gofal mamolaeth.
- (5) Dylid trefnu gwasanaethau cyfieithu ym mhob ymweliad â'r clinig cyn geni, os oes angen.
- (6) Ni ddylai staff yr uned famolaeth roi'r canlyniad i bartner neu berthnasau'r fenyw, heb ofyn am ei chaniatâd. Ni ddylid rhoi'r canlyniad i feddyg teulu neu ymwelydd iechyd y fenyw, heb ofyn am ei chaniatâd. Dylai trafod yr holl faterion hyn ddod yn rhan o'r cynllun gofal cynhwysfawr a fydd yn cael ei ddatblygu gyda'r Tîm Arbenigol HIV.

4.2.5 Gofal ar ôl y geni

Safon C 33

Dylai'r fenyw gael ei hannog i beidio â bwydo'r babi o'r fron gan ei bod hi'n bosib trosglwyddo feirws HIV trwy laeth y fron.

- (1) Mae llaeth fformiwla ar gael am ddim i fenywod HIV-bositif yng Nghymru.
- (2) Bydd angen triniaeth benodol a gofal dilynol ar y babi. Bydd hyn yn cynnwys cyffuriau gwrth-retrofeirysol dan ofal y paediatregydd.

4.2.6 Cynnig prawf sgrinio am HIV ar ôl y geni

Safon C 34

Rhaid i'r fydwraig gynnig profion sgrinio am HIV, hepatitis B a sifflis i fenywod sydd heb gael eu sgrinio yn y cyfnod cyn y geni neu yn ystod yr esgoriad. Rhaid cynnig eu sgrinio yn syth ar ôl y geni (o fewn pedair awr i'r esgoriad).

- (1) Dylai'r fydwraig neu'r meddyg gysylltu â'r microbiologydd ymgynghorol i ofyn am asesiad risg ac i benderfynu a oes angen gwneud profion ar frys a sut mae rheoli'r fam a'r babi wrth aros am y canlyniadau.

4.3 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn geni am Hepatitis B

4.3.1 Haint flaenorol

Safon C 35

Os yw'r fenyw'n rhoi gwybod ei bod wedi cael diagnosis blaenorol o haint hepatitis B, neu fod hepatitis B arni ar hyn o bryd, dylid ei sgrinio unwaith eto i gadarnhau'r diagnosis. Dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais.

- (1) Dylid dweud wrth y fenyw y bydd angen brechiad, a chyffuriau imiwnglobwlin efallai, ar y babi, os yw haint y fam yn parhau.
- (2) Dylid rhoi gwybod i'r tîm diogelu iechyd fod y fenyw'n feichiog er mwyn iddyn nhw ddechrau ar y broses o gynllunio'i gofal.

4.3.2 Canlyniadau Hepatitis B-bositif

Safon C 36

Dylai'r labordy roi gwybod o fewn un diwrnod gwaith i'r obstetregydd ymgynghorol a'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni (neu ddirprwy sydd wedi'i enwi) am ganlyniad hepatitis B-bositif i'r prawf.

Safon C 37

Dylid trefnu i'r fenyw ddod yn ei hôl i'r clinig cyn geni i gael y canlyniad positif i'w phrawf hepatitis B.

- (1) Dylid trefnu gwasanaethau cyfieithu os oes angen.
- (2) Mae hepatitis B yn haint ddigon prin yng Nghymru. Dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau addas (hynny yw, obstetregydd ymgynghorol neu gydgylltydd sgrinio cyn geni, yn unol â chyfarwyddiadau'r Bwrdd Iechyd), a ddylai roi'r canlyniad i'r fenyw.
- (3) Oni bai fod esgoriad y fenyw wedi dechrau neu fod wythnos 24 o'r cyfnod cario wedi mynd hebio, nid oes brys mawr i roi'r canlyniad hwn iddi. Dylid gwneud trefniadau addas iddi ddod yn ei hôl i'r clinig cyn geni (o fewn wythnos fel arfer) i gael y canlyniad.
- (4) Dylai canlyniadau sensitif, yn cynnwys rhai positif ynglŷn â chlefydon y mae modd eu trosglwyddo, gael eu rhoi mewn clinig (nid yng nghartref y fenyw). Bydd gan y gweithiwr iechyd proffesiynol fwy o reolaeth mewn clinig dros gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.
- (5) Er mwyn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, dylai'r fenyw gael y canlyniad yn bersonol ac ar ei phen ei hun heb fod â pherthnasau neu ffrindiau'n bresennol.
- (6) Oni bai mai'r meddyg teulu sydd wedi gofyn am y prawf a'r meddyg ei hun a fydd yn rhoi'r canlyniad i'r fenyw, ni ddylid rhoi gwybod i'r meddyg teulu am y canlyniad tan fydd y fenyw wedi rhoi ei chaniatâd i hynny gael ei wneud.
- (7) Er mwyn cadarnhau'n gwbl bendant i bwy mae'r sampl yn perthyn, bydd gofyn cymryd ail sampl.
- (8) Dylid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig (mewn iaith briodol os yw ar gael) i'r fenyw. Mae taflen wybodaeth addas ar gael o Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Safon C 38

Yn achos canlyniad positif i brawf hepatitis B, rhaid cofnodi'n brydlon yn y nodiadau mamolaeth yr holl gamau a gafodd eu cymryd a'r math o ymateb sydd wedi'i fwriadu. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

- (1) Ni ddylid ysgrifennu canlyniad positif i brawf hepatitis B yn y nodiadau mae'r fenyw'n eu dal yn ei llaw, heb ofyn am ei chaniatâd yn gyntaf.
- (2) Ar ôl cael caniatâd deallus y fenyw dylid cofnodi canlyniad positif sydd wedi'i gadarnhau yn system wybodaeth y gwasanaeth mamolaeth.
- (3) Dylai'r cofnod o'r canlyniad positif pendant gael ei ysgrifennu mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty. Dylai polisïau'r Bwrdd Iechyd warantu cyfrinachedd y wybodaeth.

4.3.3 Cynllun gofal

Safon C 39

Dylid gwneud trefniadau yn ystod y cyfnod cyn y geni i fabanod menywod sy'n hepatitis B-bositif fael triniaeth addas yn fuan iawn ar ôl y geni. (5)

- (1) Dylid gofyn i'r fam ar adeg addas yn ystod y cyfnod cyn geni am ei chaniatâd i'r babi gael ei imiwneiddio yn gynnar iawn yn y cyfnod ar ôl y geni.

- (2) Ni ddylid rhoi gwybod i'r meddyg teulu cyn i'r fenyw gael y canlyniad, rhag ofn i'r meddyg fynd ati i sgrinio aelodau eraill o'r teulu cyn i'r fenyw gael canlyniad ei phrawf.
- (3) Dylid archebu imiwnoglobwlin sy'n benodol i hepatitis B (HBIG) o'r Tîm Diogelu Iechyd ar gyfer babanod mamau sydd wedi'u henwi. Bydd hwn yn rhoi imiwnedd (neu ddiogelwch) goddefol yn y tymor byr i fabanod y mamau mwyaf heintus. Bydd hyn yn sicrhau ei fod ar gael o'r adeg mae'r fenyw yn wythnosau 32-34 o'i beichiogrwydd. (5)
- (4) Dylai'r gweithiwr iechyd sy'n arwain gyfeirio menywod â haint hepatitis B cronig yn ystod y cyfnod cyn y geni i gael ei hasesu gan gastroenterolegydd, hepatolegydd neu arbenigwr ar glefydon heintus (yn ôl patrwm y gwasanaethau lleol).
- (5) Efallai y bydd angen trafod y cynllun gofal gyda phaediatregydd neu firolegydd.
- (6) Rhaid i'r tîm diogelu iechyd drefnu i aelodau eraill cartref y fenyw gael eu cynghori ac i gael cyfle i gael eu sgrinio am hepatitis B (WHC 1998 (36)).

4.3.4 Gofal ar ôl y geni

Safon C 40

Dylai trefniadau fod wedi cael eu gwneud i'r babi ddilyn rhaglen frys o imiwneiddio, yn ôl yr argymhelliad ar gyfer proffylaxis ar ôl cysylltiad. (5)

- (1) Bydd angen dilyn canllawiau WHC (1988 (36)) 'Screening of pregnant women for hepatitis B and immunisation of babies at risk', a gofyn i fam hepatitis B-bositif am ganiatâd i'w babi gael ei imiwneiddio.
- (2) Dylid llenwi ffurflen frechu heb ei drefnu, a'i hanfon at yr Adran Iechyd Plant ar ôl i'r brechiad gael ei roi.
- (3) Dylai'r fydwraig gymunedol esbonio wrth y fam pa mor bwysig yw rhoi'r cwrs imiwneiddio llawn i'r babi.
- (4) Nid oes rheswm pan na ddylai'r fam fwydo'r babi o'r fron os yw'r babi wedi cael ei imiwneiddio/frechu.

4.3.5 Cynnig prawf sgrinio am HIV ar ôl y geni

Safon C 41

Rhaid i'r fydwraig gynnig prawf sgrinio am hepatitis B i fenywod sydd heb gael eu sgrinio yn y cyfnod cyn y geni. Rhaid cynnig eu sgrinio yn syth ar ôl y geni (o fewn pedair awr i'r esgoriad).

- (1) Dylai'r fydwraig neu'r paediatregydd gysylltu â'r microbiologydd ymgynghorol i ofyn am asesiad risg ac i benderfynu a oes angen gwneud profion ar frys a sut mae rheoli'r achos wrth aros am y canlyniadau.

4.4 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn geni am Sifflis

4.4.1 Haint flaenorol

Safon C 42

Os yw'r fenyw'n rhoi gwybod ei bod wedi cael diagnosis blaenorol o haint sifflis, neu fod sifflis arni ar hyn o bryd, dylid ei sgrinio unwaith eto i gadarnhau'r diagnosis. Dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais, ar ôl gofyn am ganiatâd y fenyw.

4.4.2 Canlyniadau sifflis-bositif

Safon C 43

Dylai'r labordy roi gwybod o fewn un diwrnod gwaith i'r obstetregydd ymgynghorol a'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni (neu ddirprwy sydd wedi'i enwi) am ganlyniad sifflis-bositif arwyddocaol i'r prawf.

- (1) Nid yw'r prawf sgrinio am sifflis yn gallu gwahaniaethu rhwng sifflis a chlefydon eraill nad oes modd eu trosglwyddo, er enghraifft, yaws, pinta, bejel neu haint sifflis sydd wedi cael ei thrin o'r blaen. Oherwydd hyn, mae angen i ficrobiolegydd/firolegydd ymgynghorol ddehongli'r canlyniad cyn iddo gael ei ryddhau.

Safon C 44

Dylid gwneud trefniadau brys (o fewn tri diwrnod gwaith) i'r fenyw ddod yn ei hôl i'r clinig cyn geni i gael y canlyniad.

- (1) Os oes angen, dylid trefnu gwasanaethau cyfieithu.
- (2) Mae sifflis yn gyflwr prin yn y Deyrnas Unedig. Dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau addas (hynny yw, obstetregydd ymgynghorol neu gydgysylltydd sgrinio cyn geni gyda chymorth aelod o'r tîm GUM neu Iechyd Rhywiol, yn unol â chyfarwyddiadau'r Bwrdd Iechyd) a ddylai roi'r canlyniad i'r fenyw.
- (3) Dylai canlyniadau sensitif, yn cynnwys rhai positif ynglŷn â chlefydon y mae modd eu trosglwyddo, gael eu rhoi mewn clinig (nid yng nghartref y fenyw). Bydd gan y gweithiwr iechyd proffesiynol fwy o reolaeth mewn clinig dros gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.
- (4) Er mwyn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, dylai'r fenyw gael y canlyniad yn bersonol ac ar ei phen ei hun heb fod â pherthnasau neu ffrindiau'n bresennol.
- (5) Oni bai mai'r meddyg teulu sydd wedi gofyn am y prawf a'r meddyg ei hun a fydd yn rhoi'r canlyniad i'r fenyw, ni ddylid rhoi gwybod i'r meddyg teulu am y canlyniad tan fydd y fenyw wedi rhoi ei chaniatâd i hynny gael ei wneud.
- (6) Er mwyn cadarnhau'n gwbl bendant i bwy mae'r sampl yn perthyn, bydd gofyn cymryd ail sampl.
- (7) Dylai'r fenyw gael gwybod am y peryglon arwyddocaol posib i iechyd y babi, a'r angen iddo gael triniaeth.
- (8) Dylid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig (mewn iaith briodol os yw ar gael) i'r fenyw. Mae taflen wybodaeth addas ar gael o Sgrinio Cyn Geni Cymru.

4.4.3 Cynllun gofal

Safon C 45

Ar ôl i fenyw gael canlyniad positif pendant i brawf sifffilis, mae gofyn ei chyfeirio ar frys at y arbenigwr y Gwasanaeth GUM/lechyd Rhywiol i gael ei hasesu a'i chynghori, ac i gael triniaeth o bosib.

- (1) Dylai arbenigwr y Gwasanaeth GUM/lechyd Rhywiol ddechrau trin yr haint yn brydlon â chyffuriau gwrthfotig (os oes angen) er mwyn lleihau ar y posibilrwydd o weld sifffilis yn trosglwyddo o'r fam i'r ffetws ac yn ei niweidio.
- (2) Rhaid i'r Gwasanaeth GUM/lechyd Rhywiol drefnu i unrhyw un sydd wedi cael cysylltiad rhywiol â'r fenyw gael cyngor a'r cyfle i gael ei sgrinio am sifffilis.
- (3) Dylid cynllunio'r gofal dilynol a'r camau rheol ar y cyd â'r obstetregydd ymgynghorol a'r Gwasanaeth GUM/lechyd Rhywiol. Dylid ysgrifennu cynllun gofal yn y nodiadau mae'r fam yn eu cario yn eu llaw.
- (4) Yr argymhelliad yw cyfeirio'r fam ar ôl wythnos 26 o'r cyfnod cario at adran meddygaeth y ffetws i gael sganiau uwchsain i asesu'r effaith ar y ffetws, yn cynnwys hydrops neu hepatosplenomegaleg an-imiwn, ac i fonitro'r ffetws am unrhyw arwyddion o drallod yn ystod camau cynnar y therapi (BASHH 2008).

Safon C 46

Yn achos canlyniad positif i brawf sifffilis, rhaid cofnodi'n brydlon yn y nodiadau mamolaeth yr holl gamau a gafodd eu cymryd a'r math o ymateb sydd wedi'i fwriadu. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

- (1) Ni ddylid ysgrifennu canlyniad positif i brawf sifffilis yn y nodiadau mae'r fenyw'n eu dal yn ei llaw, heb ofyn am ei chaniatâd yn gyntaf.
- (2) Ar ôl cael caniatâd deallus y fenyw dylid cofnodi canlyniad positif sydd wedi'i gadarnhau yn system wybodaeth y gwasanaeth mamolaeth.
- (3) Dylai'r cofnod o'r canlyniad positif pendant gael ei ysgrifennu mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty. Dylai polisïau'r Bwrdd lechyd warantu cyfrinachedd y wybodaeth.

Safon C 47

Dylai'r paediatregydd gael gwybod yn ystod y cyfnod cyn y geni am yr haint sifffilis ar y fam er mwyn gweithio gyda'r fam a'r gwasanaethau mamolaeth i greu cynllun gofal addas ar gyfer y babi.

4.4.4 Gofal ar ôl y geni

- (1) Dylid cymryd samplau o waed y fam a'r babi yn union ar ôl i'r babi gael ei eni a chyn i'w driniaeth ddechrau. Dylid trafod yr union ofynion gyda'r firolegydd cyn i'r babi gael ei eni.
- (2) Rhaid gwneud trefniadau i'r babi gael gofal dilynol gan baediatregydd, yn cynnwys triniaeth addas a phrofion serolegol (BASHH 2008).

4.4.5 Cynnig prawf sgrinio am sifflis ar ôl y geni

Safon C 48

Rhaid i'r fydwraig gynnig prawf sgrinio am sifflis i fenywod sydd heb gael eu sgrinio yn y cyfnod cyn y geni. Rhaid cynnig eu sgrinio yn syth ar ôl y geni (o fewn pedair awr i'r esgoriad).

- (1) Dylai'r fydwraig neu'r paediatregydd gysylltu â'r microbiologydd ymgynghorol i ofyn am asesiad risg ac i benderfynu a oes angen gwneud profion ar frys a sut mae rheoli'r achos wrth aros am y canlyniadau.

4.5 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn geni am y Tueddiad i gael Rwbela

4.5.1 Gwybodaeth cyn y prawf a phroffion diagnostig

- (1) Rhaid i'r fenyw gael gwybod nad yw sgrinio am y tueddiad i gael rwbela'n gallu adnabod haint bresennol neu ddiweddar yn y fenyw, na rhwystro haint rwbela cynhenid yn y ffetws.
- (2) Dim ond adnabod y menywod sydd â thueddiad i gael rwbela y mae'r prawf sgrinio am y tueddiad i gael rwbela. Dylai'r menywod hyn gael cyfle i gael eu himiwneiddio â brechlyn MMR ar ôl i'r beichiogrwydd ddod i ben (WHC 2003a (94)).

Safon C 49

Dylai menyw sy'n cwyno am frech yn gynnar yn ei beichiogrwydd neu'n weddol ddiweddar, gael cyfle cyn gynted â phosib i gael ei sgrinio am y tueddiad i gael rwbela. Dylai'r fenyw gael cyfle cyn gynted â phosib hefyd i gael prawf diagnostig am rwbela, parfo-feirws a'r frech goch.

- (1) Dylid cynnig profion diagnostig i asesu a oes haint sylfaenol o rwbela ar fenywod sydd wedi bod â chysylltiad diweddar ag achos wedi'i gadarnhau o rwbela ac nad yw prawf labordy wedi cadarnhau ar ddau achlysur blaenorol fod gwrthgyrff IgG rwbela penodol sy'n uwch na 10 IU/ml yn bresennol.
- (2) Mae cyngor ynglŷn â'r prawf hwn ar gael gan y tîm diogelu iechyd lleol.
- (3) Dylai'r fydwraig ddefnyddio'r ffurflen gais mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i phennu. Dylai roi'r manylion clinigol llawn, yn cynnwys dyddiad y cysylltiad â'r clefyd, er mwyn caniatáu i'r labordy adrodd yn gywir.

4.5.2 Y canlyniadau

Safon C 50

Dylai'r labordy roi gwybod am ganlyniad y prawf sgrinio am y tueddiad i gael rwbela a dylai'r adroddiad nodi a yw'r fenyw wedi cael ei chynghori i gael brechlyn MMR ar ôl i'r beichiogrwydd ddod i ben.

- (1) Os yw lefel y gwrthgyrff rwbela'n 10 IU/ml neu'n uwch, dylid dweud wrth y fenyw ei bod hi'n debygol o fod wedi'i diogelu rhag cael rwbela.
- (2) Os oes tueddiad yn y fenyw i gael rwbela (hynny yw, lefel y gwrthgyrff rwbela'n is na 10 IU/ml) dylai gael gwybod y bydd yn cael cyfle i gael brechlyn MMR ar ôl i'r beichiogrwydd ddod i ben.

- (3) Dylai menyw sydd â thueddiad i gael rwbela gael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig am y tueddiad i gael rwbela (mewn iaith briodol os yw ar gael). Mae taflen wybodaeth addas ar gael o Sgrinio Cyn Geni Cymru.
- (4) Dylid cynghori'r fenyw i roi gwybod i'w bydwaig neu ei meddyg teulu am unrhyw gysylltiad posib â rhywun sydd â rwbela neu frech sy'n debyg i rwbela cyn wythnos 20 ei beichiogrwydd. Gan ddilyn cyngor y Tîm Diogelu Iechyd a gyda chaniatâd y fenyw ei hun, mae cyfle i wneud profion ac astudiaethau firaol.
- (5) Os yw menyw'n dal rwbela'n gynnar yn ei beichiogrwydd, mae gwir berygl y gallai'r ffetws ddatblygu syndrom rwbela cynhenid. Dylai'r beichiogrwydd gael ei reoli o hyn ymlaen ar sail asesiad risg gan obstetregydd a thrwy ddilyn cyngor y Tîm Diogelu Iechyd.
- (6) Dylid osgoi imiwneiddio menywod bechiog â'r brechiad MMR. Os oes imiwneiddiad yn digwydd trwy ddamwain yn gynnar yn y beichiogrwydd, y cyngor yw peidio â'i chynghori i derfynu'r beichiogrwydd gan fod y risg o weld y brechlyn MMR yn achosi syndrom rwbela cynhenid yn isel (NICE 2008).

Safon C 51

Yn achos canlyniad sy'n dangos tueddiad i gael rwbela, rhaid cofnodi'n brydlon yn y nodiadau mamolaeth yr holl gamau a gafodd eu cymryd a'r math o ymateb sydd wedi'i fwriadu. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

4.5.3 Gofal ar ôl y geni

Safon C 52

Ar ôl i'r beichiogrwydd ddod i ben, rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth gynnig a rhoi'r imiwneiddiad MMR cyntaf i fenywod sydd â thueddiad i gael rwbela.

Safon C 53

Rhaid cofnodi'n brydlon, llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad yn y nodiadau mamolaeth i ddangos:

- y dyddiad y cafodd menyw â thueddiad i gael rwbela gyfle i gael brechiad MMR
- dewis y fenyw i dderbyn neu wrthod y brechiad
- y dyddiad y cafodd y brechiad MMR ei roi, a phwy a'i rhoddodd.

- (1) Os yw'r fenyw'n cael gofal mewn ysbyty, dylai gael cyfle i gael y brechiad cyn iddi gael ei rhyddhau o'r ysbyty.
- (2) Dylid cynghori'r fenyw i beidio â mynd yn feichiog am o leiaf mis ar ôl cael y brechiad (Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain 2009).
- (3) Dylid dweud wrth y meddyg teulu yn y llythyr sy'n rhyddhau'r fenyw o'r ysbyty fod y brechiad wedi cael ei roi.
- (4) Mae'n bosib rhoi brechiad MMR gyda'r brechiad imiwnoglobwlin gwrth-D (Ig) yn ystod y cyfnod ar ôl y geni, ar yr amod bod chwistrelli ar wahân yn cael eu defnyddio, a bod y pigladau mewn gwahanol freichiau neu goesau.
- (5) Dylai'r fydwaig ddweud wrth y fenyw fod angen iddi fynd i feddygfa'i meddyg teulu mewn pedair wythnos i gael ail frechiad MMR. Mae angen cofnodi'r wybodaeth hon yn y llythyr sy'n ei rhyddhau o'r ysbyty (Adran Iechyd 2006, t. 350).

5.0 Sgrinio Cyn geni am Gryman-gell a Thalasaemia

Datganiad polisi

Dylai sgrinio cyn geni am gryman-gell a thalasaemia gael ei gynig i bob menyw feichiog sydd â risg uwch o gael babi y mae anhwylder cryman-gell neu thalasaemia mwyaf yn effeithio arno (WHC 2003b (127); NICE 2008).

Cryman-gell a thalasaemia

Mathau o anhwylderau wedi'u hetifeddu'n enciliol ar yr haemoglobin yw cryman-gell a thalasaemia, a dim ond rhai ohonyn nhw sy'n arwyddocaol yn glinigol. Maen nhw'n effeithio'n bennaf (ond nid yn unig) ar bobl y mae eu cyndeidiau wedi dod o Affrica, y Caribî, y Dwyrain Canol, ardal Môr y Canoldir, De Asia a De-ddwyrain Asia. Mae'r bobl â ffurfiau difrifol o'r anhwylderau'n dibynnu am weddill eu hoes ar gael gofal mewn ysbyty.

Y rhesymeg dros sgrinio

Y nod yw adnabod y menywod sydd â siawns uchel o fod â ffetws y mae anhwylder cryman-gell neu thalasaemia mwyaf yn effeithio arno (yn ôl y diffiniad holiadur tarddiad y teulu Sgrinio Cyn Geni Cymru), er mwyn cynnig cyn y geni sgrinio mewn labordy ac, os oes angen, profion diagnostig. Mae cyfle wedyn i'r fenyw ystyried ei dewisiadau atgenhedlu.

Efallai fod manteision hefyd i iechyd y fam yn ystod y beichiogrwydd o gael ei hadnabod fel un sydd ag anhwylder cryman-gell

Y canlyniad disgwylidig

Bydd rhaid i fenywod sydd â siawns uchel o gael plentyn y mae anhwylder cryman-gell neu thalasaemia mwyaf yn effeithio arno, wneud dewisiadau ynglŷn ag atgenhedlu.

5.1 Gwybodaeth cyn y prawf

Safon SCT 1

Rhaid i'r fenyw gael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig cyn y prawf, a rhaid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth pa wybodaeth mae hi wedi'i chael.

- (1) Dylai'r fenyw gael copi o becyn gwybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru (mewn iaith a fformat priodol os yw ar gael) cyn gofyn iddi roi ei chaniatâd i'r prawf gael ei wneud. (1)
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio pwrpas, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y prawf sgrinio hwn i'r fenyw. (2)
- (3) Dylai'r fydwraig hefyd esbonio wrth y fenyw y manteision posib i'w hiechyd o gael ei hadnabod fel rhywun sydd ag anhwylder cryman-gell sy'n cael ei reoli mewn ffordd briodol.
- (4) Dylai'r fydwraig gofnodi pa wybodaeth ysgrifenedig y mae hi wedi'i rhoi i'r fenyw, a chofnodi unrhyw wybodaeth ar ffurf arall, (er enghraifft, gwybodaeth ar DVD neu CD sain). (3)

5.2 Y cwestiwn sgrinio

Safon SCT 2

Dylid gofyn y cwestiwn sgrinio am gryman-gell a thalasaemia ynglŷn â tharddiad ei theulu i'r fenyw, ym mhob beichiogrwydd.

- (1) Dylai'r fydwraig ofyn y cwestiwn ynglŷn â tharddiad teulu'r fenyw er mwyn asesu a oes angen cynnig sgrinio mewn labordy am gryman-gell a thalasaemia.
- (2) Os yw canlyniad y cwestiwn sgrinio'n awgrymu mai siawns isel sydd gan y fenyw o fod â chryman-gell a thalasaemia, gall y fydwraig ddweud wrth y fenyw mai siawns isel sydd ganddi o gael babi ag anhwylder cryman-gell neu thalasaemia mwyaf, ac nad oes angen sgrinio mewn labordy.
- (3) Dylid dweud wrth y fenyw hefyd y gallai thalasaemia gael ei adnabod neu ei amau weithiau fel rhan o'r amcangyfrif o'i chyfrif gwaed ar gyfer anaemia.

Safon SCT 3

Rhaid i'r sawl sy'n gofyn y cwestiwn gofnodi yn y nodiadau mamolaeth yr ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â tharddiad teulu'r fenyw, a chofnodi'r cyngor a roddwyd iddi.

5.2.1 Os yw'r cwestiwn sgrinio'n argymhell bod angen sgrinio mewn labordy

Safon SCT 4

Os yw'r ateb i'r cwestiwn ynglŷn â tharddiad teulu'r fenyw'n awgrymu bod angen gwneud profion, dylid cynnig sgrinio mewn labordy am gryman-gell a thalasaemia iddi.

- (1) Dylai'r fenyw gael cyfle ym mhob beichiogrwydd i gael sgrinio mewn labordy am gryman-gell a thalasaemia os yw un neu fwy o'r atebion sy'n dilyn yn berthnasol iddi:
 - mae hanes yn nheulu'r fenyw neu yn nheulu tad biolegol y babi o gryman-gell a thalasaemia
 - mae tarddiad teulu'r fenyw neu deulu tad biolegol y babi, waeth sawl cenedlaethol yn ôl, wedi dod o unrhyw ran o'r byd heblaw'r Deyrnas Unedig neu Weriniaeth Iwerddon
 - nid oes gwybodaeth am darddiad teulu'r fenyw neu deulu'r tad biolegol, er enghraifft, cafodd y fenyw ei mabwysiadu
 - mae hanes o anaemia gan y fenyw, heb eglurhad.
- (2) Dylid dweud wrth y fenyw y bydd gofyn sgrinio tad biolegol y babi os yw canlyniad y prawf sgrinio'n dangos ei bod hi'n cludo cryman-gell neu thalasaemia neu fod anhwylder ar ei haemoglobin. Dyma'r ffordd fwyaf cywir o asesu'r risg i'r beichiogrwydd.

5.2.2 Menywod sydd wedi cael diagnosis blaenorol o anhwylder haemoglobin, neu fenywod sy'n gludwyr, neu os oes anhwylder haemoglobin ar dad biolegol y babi nei ei fod yn gludwr

Safon SCT 5

Os yw'r fenyw'n dweud ei bod hi eisoes wedi cael diagnosis o anhwylder ar ei haemoglobin, dylid ei sgrinio eto. Dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais i'r labordy.

Safon SCT 6

Dylid cyfeirio menywod ag anhwylderau haemoglobin i gael gofal haematolig/obstetrig ar y cyd.

- (1) Os yw'r fenyw'n gwybod ei bod yn cludo cryman-gell neu thalasaemia neu fod anhwylder haemoglobin arni, dylid ei chynghori fod gofyn sgrinio tad biolegol y babi er mwyn asesu'r risg i'r beichiogrwydd yn gywir.
- (2) Os yw tad biolegol y babi wedi cael ei sgrinio o'r blaen, dylid gofyn am gadarnhad o'r canlyniad naill ai trwy weld y cerdyn haemoglobinopat heg neu drwy ofyn i'r labordy neu dylid cynnig ei sgrinio unwaith eto.
- (3) Os yw'r fenyw a thad biolegol y babi'n cludo cryman-gell neu thalasaemia neu anhwylder haemoglobin, mae risg amlwg y bydd y ffetws yn etifeddu anhwylder difrifol. Dylai'r fydwraig gynnig profion diagnostig i'r fam.
- (4) Os yw'r fenyw'n cytuno i gael profion diagnostig, dylid cynnig apwyntiad brys iddi gyda Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru Gyfan er mwyn cael apwyntiad brys mewn uned iechyd y ffetws.

5.3 Rhoi caniatâd

Safon SCT 7

Cyn i'r prawf gael ei wneud, rhaid i'r fenyw roi ei chaniatâd llafar sydd wedi'i seilio ar wybodaeth.

- (1) Nid oes angen caniatâd ysgrifenedig ond rhaid cofnodi caniatâd llafar y fenyw yn y nodiadau mamolaeth.
- (2) Os yw'r fenyw'n gwrthod ateb y cwestiwn sgrinio am gryman-gell a thalasaemia, dylai'r fydwraig gofnodi yn y nodiadau mamolaeth ei bod wedi gwrthod ateb y cwestiwn sgrinio.
- (3) Pwrpas y prawf cyfrif gwaed llawn y mae cyfle i fenywod beichiog ei gael yn ystod beichiogrwydd yw gwneud diagnosis o anaemia, a'i fonitro. Mae'n cynnwys amcangyfrif o fesur cymedrig haemoglobin (MCH) y celloedd. Dylid gofyn i'r fenyw am ganiatâd i'w sgrinio am gryman-gell a thalasaemia os yw canlyniad y prawf hwn mewn labordy'n awgrymu bod angen gwneud hynny.

5.4 Gwneud cais am prawf

Safon SCT 8

Rhaid i ffurflen gais y labordy gynnwys enw a llofnod y sawl sy'n gofyn am y prawf. Rhaid i ddull electronig o ofyn am prawf fod â llwybr archwilio clir ar gyfer adnabod y sawl sy'n gofyn amdano.

Safon SCT 9

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf, lenwi a llofnodi'r ffurflen gais. (4)

Safon SCT 10

Rhaid i'r geiriau `sgrinio cyn geni' ddynodi natur y cais.

Safon SCT 11

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol ar y ffurflen gais i'r labordy.

- (1) Bydd gofyn i'r labordy gael gwybodaeth am darddiad teuluoedd y fenyw a thad biolegol y babi er mwyn dehongli canlyniad y prawf.
- (2) Os yw'r fenyw wedi cytuno i gael mwy o brofion ar ôl i ganlyniad y prawf cyfrif gwaed llawn yn awgrymu bod angen gwneud rhai, dylid cofnodi ei chaniatâd ar gerdyn y cais.

5.5 Trefn y prawf

Safon SCT 12

Lle bynnag y mae hynny'n bosib, dylai'r prawf sgrinio gael ei gynnig a dylai'r sampl gael ei chymryd yn gynnar yn y beichiogrwydd (NICE 2008).

- (1) Os yw'r broses sgrinio (yn cynnwys sgrinio tad biolegol y ffetws, os oes angen) yn cael ei gwneud yn brydlon, efallai mai CVS (samplu filysau corionig) yn hytrach nag amniocentesis yw'r dewis gorau ar gyfer menywod sy'n awyddus i gael profion diagnostig. (6)

Safon SCT 13

Rhaid i'r sawl sy'n cymryd y sampl gofnodi yn y nodiadau mamolaeth y dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd, a rhaid i'r person hwnnw lofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

- (1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a gwneud y prawf gwaed mewn lle sy'n sicrhau ei phreifatrwydd.

Safon SCT 14

Rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth ddatblygu system glir ar gyfer cadarnhau i bwy mae sampl yn perthyn.

- (1) Rhaid i'r drefn hon gynnwys gofyn i'r fenyw gadarnhau ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad. Rhaid i'r rhain fod yn gwbl gyson â'r wybodaeth ar y ffurflen gais a'r sampl.

5.6 Gwasanaethau labordai

Safon SCT 15

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol dan drefn achredu patholegol clinigol (CPA, sydd bellach yn rhan o UKAS (gwasanaeth achredu'r Deyrnas Unedig)). Rhaid bod y labordy'n gallu rhoi tystiolaeth fod ei berfformiad yn foddhaol.

Safon SCT 16

Fel un o'r gofynion sylfaenol, dylai'r algorithm mae'r labordy'n ei ddefnyddio ar gyfer profion sgrinio fod yn dilyn y canllawiau a'r algorithm mae'r pwyllgor sgrinio cenedlaethol (NSC) yn eu hargymell ar gyfer ardaloedd lle mae nifer yr achosion yn isel (rhaglen sgrinio am gryman-gell a thalasaemia'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 2009).

- (1) Ni ddylai'r labordy fynd ati i wneud prawf sgrinio am gryman-gell a thalasaemia os nad yw caniatâd y fenyw wedi'i gofnodi ar gerdyn y cais.
- (2) Dylai'r sgrinio cychwynnol am gryman-gell a thalasaemia fod yn gyfrif llawn o'r gwaed (FBC), gyda chromatograffeg hylif perfformiad uchel (HPLC) i ddilyn fel arfer (NICE 2008).

Os yw'r dadansoddiad HPLC yn dangos bod annormaledd, dylid gwneud mwy o brofion addas neu gyfeirio'r achos at labordy cyfeirio i adnabod yr union annormaledd. Rhaid dilyn canllawiau a defnyddio algorithm y pwyllgor sgrinio cenedlaethol.

Safon SCT 17

Dylai'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei chymryd. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

Safon SCT 18

Os yw'r sampl yn cael ei hanfon ymlaen at labordy arall, dylai gyrraedd y labordy arall o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

Safon SCT 19

Dylai'r labordy sy'n gwneud y prawf anelu at anfon canlyniadau'r profion ar y samplau o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad y daeth y sampl i law. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

5.7 Trin y canlyniadau

Safon SCT 20

Os nad y labordy lleol sydd wedi gwneud y prawf ar y sampl, dylai'r canlyniad gael ei anfon yn ôl i'r labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaeth y labordy arall gwblhau'r prawf. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

Safon SCT 21

Dylai'r canlyniad fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaeth y labordy lleol y prawf neu i'r dyddiad y daeth y canlyniad i law o'r labordy a oedd yn gwneud y prawf. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

- (1) Dylai'r canlyniadau gael eu rhoi i'r tîm clinigol sy'n gofalu am y fenyw yn ystod ei beichiogrwydd. Ni ddylai labordai roi canlyniadau i weithwyr iechyd proffesiynol dros y ffôn fel arfer, oni bai fod rheswm clinigol da dros wneud hynny sy'n effeithio'n syth ar y broses o reoli gofal y claf.
- (2) Os yw canlyniad y prawf cyfrif gwaed llawn yn dangos MCH o 27pg neu is, ac mae'r fenyw wedi gwrthod y prawf sgrinio, dylai hi gael cyfle arall i gael ei sgrinio ar ôl i ganlyniadau'r prawf cyfrif gwaed gael eu hesbonio.

Safon SCT 22

Rhaid bod trefn ysgrifenedig wedi cael ei chreu a'i chytuno ar gyfer adnabod a mynd ar ôl canlyniadau i brofion sgrinio sydd heb ddod i law.

Safon SCT 23

Rhaid cofnodi'r canlyniad yn y nodiadau mamolaeth.

- (1) Rhaid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth y ffaith fod y canlyniad wedi cael ei roi i'r fenyw a bod cyfle wedi bod i'w drafod. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

5.7.1 Canlyniad heb unrhyw dystiolaeth o gryman-gell neu thalasaemia

Safon SCT 24

Dylai'r gwasanaeth mamolaeth roi gwybod i'r fenyw o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd am ganlyniad sy'n dangos nad oes unrhyw dystiolaeth o gryman-gell neu thalasaemia. *Isafswm safon 90%*

- (1) Dylid dweud wrth y fenyw mai siawns isel iawn sydd ganddi o gael plentyn y mae cryman-gell neu thalasaemia mwyaf yn effeithio arno.

5.7.2 Mam sy'n cael canlyniad positif i brawf sgrinio am gryman-gell neu thalasaemia

Safon SCT 25

Dylai'r labordy roi gwybod o fewn un diwrnod gwaith i'r obstetregydd ymgynghorol a'r cysgysylltydd sgrinio cyn geni (neu ddirprwy sydd wedi'i enwi) neu'r cynghorwr cryman-gell a thalasaemia am ganlyniad positif i brawf sgrinio am gryman-gell a thalasaemia.

Safon SCT 26

Dylid gwneud trefniadau i'r fenyw ddod yn ei hôl i'r clinig cyn geni o fewn tri diwrnod gwaith i gael ei chanlyniad.

- (1) Os oes angen, dylid trefnu gwasanaethau cyfieithu.

- (2) Os yw'r fenyw'n cludo cryman-gell neu thalasaemia neu os oes anhwylder haemoglobin arni, dylai gael gwybodaeth ysgrifenedig a llafar am ei diagnosis. Dylai gweithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi cael ei hyfforddi'n arbennig ddweud wrthi y bydd y siawns bod ei babi wedi etifeddu anhwylder cryman-gell neu thalasaemia mwyaf yn dibynnu ar ganlyniad prawf tad biolegol y ffetws, hynny yw, pun a yw tad biolegol y ffetws hefyd yn cludo cryman-gell neu thalasaemia.
- (3) Os oes anhwylder haemoglobin ar y fenyw, dylai gael ei chyfeirio i gael gofal haematolig/obstetrig ar y cyd.

Safon SCT 27

Os yw'r fenyw'n awyddus i gael mesur o'r risg i'w babi, dylai'r gwasanaethau mamolaeth ofyn am ei chaniatâd i gynnig prawf sgrinio am gryman-gell a thalasaemia i dad biolegol y babi.

- (1) Os yw'r tad biolegol wedi cael ei sgrinio o'r blaen, dylid edrych ar y cerdyn haemoglobinopatheg neu gysylltu â'r labordy er mwyn cadarnhau'r canlyniad. Fel arall, dylid cynnig ail prawf sgrinio i'r tad.

Safon SCT 28

Os yw'r tad biolegol yn cytuno i gael prawf, dylid mynd ati cyn gynted â phosib, a beth bynnag o fewn tri diwrnod gwaith, i gymryd sampl ganddo.

- (1) Dylai'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni neu'r cynghorwr cryman-gell a thalasaemia gydgysylltu'r broses o gysylltu'r canlyniadau. Dylen nhw roi'r wybodaeth angenrheidiol i'r labordy er mwyn sicrhau bod canlyniad y tad biolegol ar gael i'w ystyried ar y cyd â chanlyniad y fenyw.
- (2) Dylid dangos yn glir ar y sampl fod angen rhoi sylw brys iddi, a dylid rhoi gwybod i'r labordy ei bod hi ar ei ffordd ato.
- (3) Os yw'r tad biolegol yn cael ei sgrinio ac mae'r canlyniad yn dangos ei fod yn cludo cryman-gell neu thalasaemia neu fod anhwylder haemoglobin arno, bydd y risg i'r ffetws yn dibynnu ar y ffordd y gallai'r amrywiolion penodol yn haemoglobin ei rieni ryngweithio.
- (4) Mae angen i haematolegydd galluog a deallus roi cyngor a gwneud asesiad o'r risg i'r ffetws. Efallai y bydd y fenyw'n cael cyfle i gael profion diagnostig yn ystod y cyfnod cyn geni ar ôl i'r haematolegydd wneud ei asesiad o'r risg i'r ffetws.
- (5) Os yw'r tad biolegol yn cael ei sgrinio ac nid yw'n cario cryman-gell neu thalasaemia, mae'n bosib i weithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig ddweud wrth y fenyw fod y siawns o weld anhwylder cryman-gell neu thalasaemia mwyaf yn effeithio ar ei phlentyn yn isel iawn. Ni ddylid argymhell y dylai gael profion diagnostig cyn geni.
- (6) Ond dylid dweud wrthi hefyd fod angen ailasesu'r perygl mewn unrhyw feichiogrwydd dilynol, a hynny cyn iddi fynd yn feichiog neu cyn gynted ag y daw i wybod ei bod hi'n feichiog, os oes partner gwahanol ganddi. Mae'n bosib gwneud y profion hyn trwy ganolfan cryman-gell a thalasaemia, neu drwy feddygfa meddyg teulu'r fenyw.
- (7) Os nad yw tad biolegol y ffetws ar gael, os yw'n gwrthod y prawf, neu os yw'r fenyw'n gwrthod rhoi caniatâd i rywun gysylltu â'r tad, dylai haematolegydd y Bwrdd Iechyd Asesu'r Risg i'r ffetws a rhoi cyngor i'r gwasanaeth mamolaeth ynglŷn â'r risg. Dylai'r asesiad gael ei seilio ar ethnigrwydd y fenyw a thad biolegol y babi. Dylid cynnig amniocentesis neu CVS, pa un bynnag sy'n briodol.
- (8) Os yw'r fenyw'n gwrthod profion diagnostig yn ystod y cyfnod cyn geni, dylid argymhell sgrinio'r babi newydd-anedig am gryman-gell.

Safon SCT 29

Pan mae'r fenyw'n cytuno i gael profion diagnostig mewnwthiol yn ystod y cyfnod cyn geni, dylid dilyn polisiâu, safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer amniocentesis a samplu filysau corionig (CVS).

- (1) I helpu i ddehongli'r canlyniadau, rhaid rhoi sampl 10ml o waed y fam mewn potel EDTA a'i anfon gyda'r samplau diagnostig o'r CVS neu'r amniocentesis i fesur yr haemoglobinopathegau. Rhaid i'r sampl gwaed gael ei chymryd ar yr un diwrnod ag y mae'r weithred ei hun yn cael ei gwneud.
- (2) Os yw tad biolegol y babi ar gael, mae angen sampl o'i waed yntau.
- (3) Os yw gweithred amniocentesis yn cael ei gwneud, bydd angen 20ml o'r hylif amniotig ar y labordy.

5.7.3 Gofal ar ôl y geni

Safon SCT 30

Os oes siawns uchel fod y ffetws wedi etifeddu anhwylder cryman-gell neu fath arall o anhwylder difrifol ar yr haemoglobin, dylid cynnig gwneud profion ar y babi newydd-anedig am anhwylderau cryman-gell.

- (1) Rhaid bod pob Bwrdd Iechyd wedi creu polisi ar gyfer dewis y babanod newydd-anedig i gael eu sgrinio am anhwylderau cryman-gell.
- (2) Nid yw gwaed y llinyn bogail yn addas ar gyfer y prawf hwn. Mae gofyn cael sampl 0.3-1ml o waed, mewn potel EDTA paediatrig.

6.0 Sgrinio Cyn geni am Syndrom Down

Datganiad polisi

Dylai sgrinio cyn geni am syndrom Down gael ei gynnis i bob menyw feichiog (NICE 2008; WHC 2003b (127)).

Syndrom Down

Syndrom Down yw'r anomaledd mwyaf cyffredin ar y cromosomau. Mae'n cael ei achosi gan annormaleddau sy'n golygu presenoldeb deunydd genetig ychwanegol sy'n gysylltiedig â phâr 21 o'r cromosomau. At ei gilydd, mae'r cyflwr hwn yn digwydd mewn tua un o bob 500-600 o feichiogrwyddau, ac mae nifer yr achosion yn codi wrth i oedran y fam godi.

Y rhesymeg dros sgrinio

Os yw syndrom Down yn effeithio ar y ffetws, gallai'r fenyw ddewis ar sail gwybodaeth ynglŷn â pharhau'r beichiogrwydd neu beidio. Os yw'r beichiogrwydd i barhau, dylid mynd ati i adnabod unrhyw broblemau ychwanegol yng nghorff y babi (er enghraifft, anomaleddau ar y galon) er mwyn cynnig gofal addas.

Y canlyniadau disgwylidig

Bydd menywod y mae syndrom Down yn effeithio ar eu beichiogrwydd yn gorfod gwneud dewisiadau atgenhedlu.

Yr opsiynau o ran profion sgrinio

Mae'r ddau brawf sgrinio mwyaf cyffredin ar gyfer sgrinio am syndrom Down yn golygu defnyddio mesuriadau uwchsain o'r ffetws a phrawf gwaed i roi marcwyr biocemegol. Mae'r ddau'n cyfrannu at y broses o gyfrifo'r siawns o weld syndrom Down yn effeithio ar y beichiogrwydd. Gall menywod ddefnyddio canlyniad yr asesiad hwn o'r risg i benderfynu a ydyn nhw'n awyddus i gael prawf mewnwthiol (CVS neu amniocentesis) fel prawf diagnostig cytogenetig.

Mae pwyllgor sgrinio cenedlaethol y Deyrnas Unedig (UK NSC, 2008) a NICE (2008) wedi argymhell y dylai'r prawf sgrinio allu rhoi cyfradd ddatgelu o 75% ar gyfradd positif o lai na 3%. Nid yw'r prawf yn ystod yr ail gyfnod o dri mis yn gallu cyrraedd y safon hon.

Y prawf sgrinio sy'n cael ei argymhell yn ystod y tri mis cyntaf (hyd at wythnos 13 a diwrnod 6 o'r cyfnod cario) yw'r 'prawf cyfunol'. Mae'r prawf yn golygu defnyddio mesuriad uwchsain i asesu'r cam yn y cyfnod cario, a mesuriad o wegil y ffetws (tryleuedd y gwegil) ar y cyd â'r marcwyr cemegol i roi'r canlyniad i'r fenyw yn gynnar yn ei beichiogrwydd.

Mae UK NSC a NICE fel ei gilydd wedi argymhell y dylai'r prawf hwn fod ar gael yn ystod y tri mis cyntaf i fenywod beichiog sy'n dechrau ar eu gofal yn gynnar yn y beichiogrwydd.

Y prawf sgrinio sy'n cael ei argymhell yn ystod yr ail gyfnod o dri mis (rhwng wythnosau 15-20 o'r beichiogrwydd) yw'r prawf 'bedwarplyg'. Mae'r profion yma'n golygu defnyddio mesuriad uwchsain i asesu'r cam yn y cyfnod cario ar y cyd â chanlyniadau tri neu bedwar o farcwyr biocemegol i roi'r canlyniad i'r fenyw tua hanner ffordd drwy ei beichiogrwydd.

Mae UK NSC a NICE fel ei gilydd wedi argymhell y dylai'r prawf hwn fod ar gael yn ystod yr ail gyfnod o dri mis i fenywod sydd ddim yn dechrau ar eu gofal mewn pryd i gael y prawf sgrinio am syndrom Down yn ystod y tri mis cyntaf.

6.1 Gwybodaeth cyn y prawf

Safon DS 1

Rhaid i'r fenyw gael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig cyn y prawf, a rhaid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth pa wybodaeth mae hi wedi'i chael.

- (1) Dylai'r fenyw gael copi o becyn gwybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru (mewn iaith a fformat addas, os ydyn nhw ar gael) cyn gofyn iddi roi ei chaniatâd i'r prawf gael ei wneud. (1)
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio pwrpas, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y profion sgrinio hyn i'r fenyw. (2)
- (3) Dylai'r fydwraig esbonio wrth y fenyw fod syndrom Down yn gyflwr genetig am oes ac y bydd annormaleddau cysylltiedig ar rai pobl sydd â'r syndrom. Mae ansawdd bywydau rhai pobl sydd â syndrom Down yn gallu bod yn dda. Mae rhai pobl â syndrom Down yn gallu byw'n lled annibynnol, ond bydd angen gofal cyson ar bobl eraill.
- (4) Dylai'r fydwraig gofnodi pa wybodaeth ysgrifenedig y mae hi wedi'i rhoi i'r fenyw, a chofnodi unrhyw wybodaeth ar ffurf arall, (er enghraifft, gwybodaeth ar DVD neu CD sain). (3)
- (5) Rhaid dweud wrth y fenyw y bydd cyfle iddi gael profion diagnostig yn y cyfnod cyn geni os yw canlyniad y prawf yn ei rhoi yn y grŵp 'siawns uwch'.
- (6) Dylid esbonio'r peryglon erthylu sy'n gysylltiedig â phroffion diagnostig cyn geni.

6.2 Cynnig y prawf sgrinio

Safon DS 2

Dylai sgrinio cyn geni am syndrom Down gael ei gynnig i bob menyw feichiog.

- (1) Os yw'r sampl yn cael ei chymryd ar yr adeg iawn ond ni all y labordy roi canlyniad, dylid cynnig cyfle i'r fenyw drafod y sefyllfa i ystyried a oes unrhyw opsiynau eraill a allai fod ar gael. Un o'r opsiynau posib yw cynnig amniocentesis ar sail oedran y fam neu gynnig sgrinio trwy labordy sy'n gallu cynnig profion dibynadwy mewn beichiogrwydd hyd at wythnos 20 o'r cyfnod cario.
- (2) Os oes syndrom Down ar aelod o deulu'r fenyw, dylid holi a yw hi'n gwybod pa fath o syndrom Down ydyw. Mae trawsleoliad yn y teulu'n cynyddu'r perygl o etifeddu syndrom Down. Efallai y byddai'n syniad cyfeirio'r fenyw at y gwasanaethau geneteg. Ar sail cyngor y gwasanaethau geneteg, efallai y dylid ystyried pennu caryoteip y rhieni.
- (3) Yn achos menywod yr oedd syndrom Down wedi effeithio ar feichiogrwydd blaenorol, dylid eu cynghori i drafod y sefyllfa ag obstetregydd ymgynghorol, cydgysylltydd sgrinio cyn geni neu genetegydd, cyn i unrhyw sgrinio gael ei wneud. Y rheswm dros wneud hyn yw y byddai canlyniad y prawf sgrinio'n llai dibynadwy.
- (4) Ar hyn o bryd, nid yw'r labordy yng Nghaerdydd yn gallu asesu'r risg mewn beichiogrwydd lle mae mwy nag un babi.

Safon DS 3

Rhaid i'r sgrinio am syndrom Down mae Byrddau Iechyd yn ei gynnig yn ystod tri mis cyntaf beichiogrwydd gyrraedd safonau a dilyn canllawiau'r pwyllgor sgrinio cenedlaethol (NSC 2007).

6.3 Rhoi caniatâd

Safon DS 4

Cyn i'r prawf gael ei wneud, rhaid i'r fenyw roi ei chaniatâd llafar sydd wedi'i seilio ar wybodaeth.

- (1) Nid oes angen caniatâd ysgrifenedig ond rhaid i'r fydwraig gofnodi caniatâd llafar y fenyw yn y nodiadau mamolaeth.

6.4 Gwneud cais am brawf

Safon DS 5

Rhaid i ffurflen gais y labordy gynnwys enw a llofnod y sawl sy'n gofyn am y prawf. Rhaid i ddull electronig o ofyn am brawf fod â llwybr archwilio clir ar gyfer adnabod y sawl sy'n gofyn amdano.

Safon DS 6

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf, lenwi a llofnodi'r ffurflen gais. (4) (9)

Safon DS 7

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol ar y ffurflen gais.

- (1) Rhaid bod sgan uwchsain wedi cadarnhau'r adeg yn y cyfnod cario. Rhaid cynnwys y mesuriadau uwchsain ar gerdyn y cais.
- (2) Os yw'r fenyw wedi cael triniaeth IVF, mae gofyn rhoi'r wybodaeth hon i'r labordy. Os yw'r beichiogrwydd yn dilyn cael rhodd o wy, mae gofyn cael oedran y rhoddwr hefyd.
- (3) Mae gofyn cael pwysau cywir y fam. Dylid ei phwyso ar y diwrnod mae'r sampl yn cael ei chymryd, ac yn sicr dim mwy nag wythnos cyn hynny.

Safon DS 8

Pan mae'r fenyw'n cael cyfle i gael prawf sgrinio am syndrom Down yn ystod tri mis cyntaf ei beichiogrwydd, rhaid nodi ar gerdyn y cais am y sgan uwchsain cynnar fod y fenyw wedi rhoi ei chaniatâd i'r prawf sgrinio am syndrom Down gael ei wneud.

- (1) Dylid nodi enw'r sonograffydd sy'n mesur tryleuedd y gwegil ar gerdyn y cais am brawf sgrinio am syndrom Down.

6.5 Trefn y prawf

Safon DS 9

Rhaid i'r sawl sy'n cymryd y sampl gofnodi yn y nodiadau mamolaeth y dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd, a rhaid i'r person hwnnw lofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

- (1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a gwneud y prawf gwaed mewn lle sy'n sicrhau ei phreifatrwydd.
- (2) Dim ond rhwng wythnos 11 a 0 diwrnod ac wythnos 13 a 6 diwrnod y mae'n bosib gwneud prawf sgrinio'r tri mis cyntaf (y prawf cyfunol).
- (3) Dim ond ar samplau a gafodd eu cymryd rhwng wythnos 15 a 3 diwrnod ac wythnos 18 a 0 diwrnod o'r cyfnod cario y gall labordy biocemeg Caerdydd wneud profion yr ail gyfnod o dri mis.
- (4) Yn achos samplau sy'n cael eu prosesu yn labordy biocemeg Caerdydd, mae angen 3 mls o waed o wythien mewn tiwb gwahanu serwm (SST) i wneud y prawf. Os yw'r fam yn rhoi mwy nag un sampl o waed ar y tro, rhaid cymryd y sampl ar gyfer y prawf syndrom Down yn gyntaf gan fod EDTA mewn cynwysyddion eraill yn gallu effeithio ar y canlyniad.
- (5) Os yw'r prawf yn yr ail gyfnod o dri mis i gael ei wneud ac mae'r fam wedi bod yn gwaedu o'i gwain yn ystod y beichiogrwydd, gallai hyn hefyd effeithio ar lefel yr AFP. Os oes digon o amser, byddai'n well aros am wythnos ar ôl i'r gwaedu stopio gan nad yw'r labordy'n gallu addasu'r prawf i roi sylw i effaith bosib y gwaedu.

Safon DS 10

Rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth ddatblygu system glir ar gyfer cadarnhau i bwy mae sampl yn perthyn.

- (1) Rhaid i'r drefn hon gynnwys gofyn i'r fenyw gadarnhau ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad. Rhaid i'r rhain fod yn gwbl gyson â'r wybodaeth ar y ffurflen gais a'r sampl.

Safon DS 11

Rhaid bod trefn wedi cael ei chreu ar gyfer adnabod a mynd ar ôl canlyniadau sydd heb ddod i law.

6.6 Gwasanaethau labordai

Safon DS 12

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol dan drefn achredu patholegol clinigol (CPA, sydd bellach yn rhan o UKAS (gwasanaeth achredu'r Deyrnas Unedig)). Rhaid bod y labordy'n gallu rhoi tystiolaeth fod ei berfformiad yn foddhaol.

Safon DS 13

Rhaid bod aelod uwch o staff y labordy'n gweithio ar lefel ymgynghorydd (naill ai fel gwyddonydd clinigol neu batholegydd cemegol) a'i fod wedi cael profiad perthnasol o sgrinio. Rhaid bod yr unigolyn hwn yn gyfrifol am yr holl agweddau ar sgrinio am syndrom Down o fewn gwasanaeth y labordy.

Safon DS 14

Rhaid i'r labordy gyflwyno data am sgrinio o leiaf ddwywaith y flwyddyn i DQASS (*Down's Syndrome Quality Advisory Service*).

Safon DS 15

Rhaid i'r labordy gymryd rhan mewn archwiliad o'i wasanaeth sgrinio a chynnig gwybodaeth, yn ôl y galw, i Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Safon DS 16

Isafswm safon ddatblygiadol i'w chyflawni erbyn Medi 2010.

Rhaid i'r gyfradd ddatgelu a'r gyfradd ffug-bositif ar gyfer rhaglen sgrinio syndrom Down gael eu monitro. Rhaid defnyddio prawf sy'n gallu cyrraedd isafswm safon o 75% ar gyfer cyfradd ddatgelu ar gyfradd bositif o lai na 3%.

Safon DS 17

Dylai'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei chymryd. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

Safon DS 18

Os yw'r sampl yn cael ei hanfon at labordy arall, dylai gyrraedd y labordy arall o fewn dau diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei chymryd.

Isafswm safon ddatblygiadol 90%

Safon DS 19

Dylai'r labordy sy'n gwneud y prawf anelu at anfon canlyniadau'r profion ar y samplau o fewn tri diwrnod gwaith i'r dyddiad y daeth y sampl i law.

Isafswm safon 90%

6.7 Trin y canlyniadau

Safon DS 20

Dylai canlyniad sgrinio serwm syndrom Down fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn tri diwrnod gwaith i'r dyddiad y cyrhaeddodd y canlyniad y labordy sy'n gwneud y prawf. *Isafswm safon 95%*

(1) Dylai'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni neu'r dirprwy gydgysylltu'r broses o drin y canlyniadau.

6.7.1 Canlyniadau sy'n dangos siawns is o syndrom Down

Safon DS 21

Dylai'r gwasanaeth mamolaeth roi gwybod i fenywod sydd â siawns is o syndrom Down o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd.

- (1) Dylai'r fenyw gael gwybod bod ganddi siawns isel o gael babi â syndrom Down ac nad oes argymhelliad y dylai gael mwy o brofion. Os yw'r fenyw'n gofyn am union ganlyniad y prawf sgrinio serwm (sy'n cael ei fesur fel risg o un mewn XXX), gellir rhoi'r canlyniad iddi.

Safon DS 22

Rhaid cofnodi'r canlyniad yn y nodiadau mamolaeth.

- (1) Rhaid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth y ffaith fod y fenyw wedi cael cyfle i drafod y canlyniad. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

6.7.2 Siawns uwch o syndrom Down (rhwng un o bob dau, ac un o bob 150)

Safon DS 23

Dylai'r gwasanaeth mamolaeth roi gwybod am ganlyniadau sy'n awgrymu siawns uwch o syndrom Down, i fenywod o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd.

- (1) Dylid ysgrifennu llythyr at y fenyw, neu ei ffonio (pa un bynnag yw'r drefn leol a/neu ddewis y fenyw) i roi gwybod iddi ei bod wedi cael ei gosod yn y grŵp o fenywod i gael cyfle i gael profion diagnostig
- (2) Ni ddylid rhoi'r canlyniad hwn fel arfer yn ystod y penwythnos neu ar brynhawn dydd Gwener, oni bai fod ffordd y gall y fenyw fynd at weithwyr iechyd proffesiynol i drafod y canlyniad ac i roi gwybodaeth gywir iddi am CVS a/neu amniocentesis.

Safon DS 24

Dylid trefnu apwyntiad o fewn 24 awr i'r adeg y mae'r fenyw'n cael y canlyniad, pan gall hi drafod y canlyniad â'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni, neu â gweithiwr iechyd proffesiynol arall sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth addas.

- (1) Dylid trefnu gwasanaethau cyfieithu os oes angen.
- (2) Nid oes argymhelliad i wneud sgan ychwanegol neu sgan uwchsain anomaledd y ffetws neu sgan 'marcwyr', ac ni ddylen nhw gael eu defnyddio i addasu'r canlyniad.
- (3) Dylai'r fydwraig drafod goblygiadau syndrom Down yn y tymor byr a'r tymor hir, a'r ffactorau meddygol a chymdeithasol.
- (4) Lle bynnag y mae hynny'n bosib, dylai menywod gael copi, yn ystod yr ymweliad hwn, o daflen wybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru 'Gwybodaeth i fenywod sydd â siawns uwch o syndrom Down'. Mae manylion cyswllt yn y daflen ar gyfer Cymdeithas Syndrom Down ac ARC (Canlyniadau a Dewisiadau Cyn geni).

Safon DS 25

Dylid cynnig prawf diagnostig (hynny yw, CVS neu amniocentesis) sy'n briodol i'r cam yn y cyfnod cario mae'r fenyw wedi gyrraedd.

- (1) Dylai'r drafodaeth gynnwys gwybodaeth am:
 - y profion diagnostig sydd ar gael (amniocentesis neu CVS)
 - y perygl o erthylu sy'n gysylltiedig â'r profion diagnostig
 - PCR a'r prawf caryoteip, a'r wybodaeth a allai ddeillio o'r profion diagnostig hyn
 - unrhyw wybodaeth arall mae'r fenyw'n gofyn amdani i'w helpu i ddewis yn ddeallus ynglŷn â phroffion diagnostig cyn geni.
- (2) Dylai'r fydwraig hefyd drafod dewisiadau'r fenyw o ran ei beichiogrwydd os yw'n cael profion diagnostig ac mae'r canlyniad yn 'annormal'.
- (3) Dylid trafod terfynu'r beichiogrwydd. Dylid dweud wrthi mai'r argymhelliad yw dod â bywyd y ffetws i ben os yw'r beichiogrwydd wedi mynd heibio wythnos 21 a diwrnod 6 o'r cyfnod cario.
- (4) Dylai'r fenyw gael digon o amser (o leiaf 24 awr fel arfer) i deimlo'n ddigon cyfforddus i benderfynu a yw am dderbyn neu wrthod profion diagnostig cyn geni.
- (5) Lle bynnag y mae hynny'n bosib, dylai menywod gael copi, yn ystod yr ymweliad hwn, o daflenni gwybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru 'Amniocentesis' a 'CVS'. Mae manylion cyswllt yn y taflenni hyn ar gyfer Cymdeithas Syndrom Down ac ARC (Canlyniadau a Dewisiadau Cyn geni).

Safon DS 26

Yn achos canlyniad sy'n awgrymu siawns uwch o syndrom Down, rhaid cofnodi'n brydlon yn y nodiadau mamolaeth yr holl gamau a gafodd eu cymryd a'r math o ymateb sydd wedi'i fwriadu. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

7.0 Sgrinio Uwchsain mewn Beichiogrwydd

Datganiad polisi

Dylai pob menyw sy'n byw yng Nghymru gael cyfle i gael sgan uwchsain beichiogrwydd cynnar cyn wythnos 13 a 6 diwrnod o'r beichiogrwydd (WHC 2003b; NICE 2008) a sgan uwchsain anomaledd y ffetws rhwng wythnos 18 a 0 diwrnod ac wythnos 20 a 6 diwrnod o'r beichiogrwydd (RCOG 2000; NICE 2008).

Sgan cynnar mewn beichiogrwydd

Y rhesymeg dros sgrinio

Mae'r sgan uwchsain yn cael ei gynnis yn gynnar mewn beichiogrwydd i ganfod pa mor hyfyw (*viable*) yw'r ffetws, yr union gam yn y cyfnod cario, ac achosion o feichiogrwyddau lluosog (nifer y ffetwsau a mesur cyfaint yr hylif (*chorionicity/amnionicity*)). Mae gofyn mesur pa mor aeddfed yw'r ffetws ar gyfer y rhaglen sgrinio am syndrom Down, ac mae defnyddio uwchsain i ganfod y cam yn cwtogi ar yr angen i ysgogi'r fam i esgor ar ddiwedd y beichiogrwydd (NICE 2008). Mae'n bosib canfod rhai anomaleddau arwyddocaol ar y ffetws hefyd, ond nid hwn yw prif bwrpas y sgan.

Lle mae menyw'n cael ei sgrinio am syndrom Down yn ystod y tri mis cyntaf, bydd hi'n cael y canlyniad yn gynt.

Y canlyniad disgwylidig

Y nod yw gallu mesur pa mor hyfyw yw'r ffetws, gallu cyfrifo'n gywir pa mor aeddfed yw'r ffetws (y cam yn y cyfnod cario) a gallu adnabod achosion lle mae mwy nag un ffetws, er mwyn rheoli'r beichiogrwydd a sgrinio am syndrom Down.

Sgan uwchsain anomaledd y ffetws

Y rhesymeg dros sgrinio

Pwrpas y sgan uwchsain anomaledd y ffetws yw canfod anomaleddau difrifol yng ngwneuthuriad y ffetws sy'n debygol o effeithio'n groes ar iechyd y fam neu'r babi, ac y mae dull effeithiol o ymyrryd yn gyfiawn ar gael ar eu cyfer.

Yn achos rhai cyflyrau, mae triniaethau ar gael i'w hatal yn ystod y cyfnod cyn geni neu ar ôl y geni a fyddai'n gwella iechyd y babi. Yn achos cyflyrau eraill, mae sganio uwchsain yn gallu adnabod y cyflwr ond nid oes triniaeth ar gael i'w atal. Gall menyw ddewis ar sail gwybodaeth a yw'n awyddus i'r beichiogrwydd barhau neu beidio (Dewisiadau, Ymddiriedolaeth GIG Felindre 2002).

Y canlyniad disgwylidig

Y nod yw canfod annomaleddau difrifol yng ngwneuthuriad y babi er mwyn ymyrryd mewn ffordd briodol yn ôl yr angen.

7.1 Safonau cyffredinol ar gyfer sganiau cynnar mewn beichiogrwydd a sganiau anomaledd y ffetws

7.1.1 Gwybodaeth cyn y prawf

Safon US 1

Rhaid i'r fenyw gael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig cyn y prawf, a rhaid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth pa wybodaeth mae hi wedi'i chael.

- (1) Dylai'r fenyw gael copi o becyn gwybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru (mewn iaith a fformat addas, os ydyn nhw ar gael) cyn gofyn iddi roi ei chaniatâd i'r sgan uwchsain gael ei wneud. (1)
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio pwrpas, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y sganiau uwchsain i'r fenyw. (2)
- (3) Dylai'r fydwraig gofnodi pa wybodaeth ysgrifenedig y mae hi wedi'i rhoi i'r fenyw, a chofnodi unrhyw wybodaeth ar ffurf arall, (er enghraifft, gwybodaeth ar DVD neu CD sain). (3)
- (4) Dylai menywod sy'n awyddus i gael sgan uwchsain cynnar neu sgan uwchsain anomaledd y ffetws ond sy'n gofyn am beidio â chael gwybod am unrhyw anomaleddau sy'n dod i'r amlwg, gael eu cynghori y byddan nhw'n cael gwybod am unrhyw ddarganfyddiadau arwyddocaol sydd i'w gweld ac y dylen nhw ystyried peidio â chael y sgan uwchsain.
- (5) Lle mae sgrinio yn ystod y tri mis cyntaf am syndrom Down yn cael ei gynnig hefyd, dylid bodloni'r safonau a'r protocolau yn adran 6 hefyd.

7.1.2 Cynnig sganiau uwchsain

Safon US 2

Dylai pob menyw gael cyfle i gael sgan uwchsain cynnar cyn wythnos 13 a 6 diwrnod o'r beichiogrwydd a sgan uwchsain anomaledd y ffetws rhwng wythnos 18 a 0 diwrnod ac wythnos 20 a 6 diwrnod.

- (1) Dylai menywod sy'n dechrau ar eu gofal cyn geni'n hwyr yn y beichiogrwydd gael cyfle i gael sgan sy'n addas i'r cam yn y cyfnod cario mae'n ymddangos eu bod nhw wedi'i gyrraedd.

7.1.3 Rhoi caniatâd

Safon US 3

Cyn i'r sgan gael ei wneud, rhaid i'r fenyw roi ei chaniatâd llafar sydd wedi'i seilio ar wybodaeth.

- (1) Nid oes angen caniatâd ysgrifenedig ond rhaid cofnodi caniatâd llafar y fenyw yn y nodiadau mamolaeth ac ar gerdyn cais y sgan uwchsain
- (2) Lle mae'r fenyw'n cael cyfle i gael sgrinio am syndrom Down hefyd, rhaid gofyn iddi hefyd a ydi hi'n derbyn neu'n gwrthod sgrinio am syndrom Down. Rhaid cofnodi ei phenderfyniad yn y nodiadau mamolaeth ac ar gerdyn cais y sgan uwchsain.

7.1.4 Gwneud cais am brawf

Safon US 4

Rhaid i ffurflen gais y labordy gynnwys enw a llofnod y sawl sy'n gofyn am y sgan. Rhaid i ddull electronig o ofyn am sgan fod â llwybr archwilio clir ar gyfer adnabod y sawl sy'n gofyn amdano.

Safon US 5

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y sgan, lenwi a llofnodi'r ffurflen gais. (4)

Safon US 6

Rhaid cynnwys gwybodaeth ddemograffig a gwybodaeth glinigol berthnasol ar y ffurflen gais am sgan uwchsain, neu ar y cais electronig.

- (1) Dylid nodi ar y ffurflen gais unrhyw faterion obstetrig, meddygol neu gymdeithasol a allai effeithio ar les y ffetws.
- (2) Dylid rhoi gwybodaeth am:
 - feichiogrwyddau blaenorol oedd ag annormaleddau, er enghraifft, namau ar y tiwb niwral, anomaleddau ar y galon
 - pun a oes diabetes ar y fam
 - epilepsi (ac unrhyw gyffuriau mae'r fam yn eu cymryd)
 - unrhyw gyffuriau eraill (ar bresgripsiwn neu heb bresgripsiwn)
 - pun a yw'r fam yn yfed gormod o alcohol
 - mynegai màs (BMI) corff y fam.
- (3) Dylai'r cais am sgan uwchsain cynnar nodi a yw'r fam yn gofyn am sgrinio syndrom Down.

7.1.5 Gwasanaethau uwchsain

Safon US 7

Dim ond sonograffydd sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, neu un sydd wrthi'n cael ei hyfforddi dan ofal sonograffydd profiadol, a ddylai wneud sganiau uwchsain. (10)

Safon US 8

Rhaid i'r holl offer uwchsain mae gwasanaethau mamolaeth yn eu defnyddio fod yn cyrraedd y safonau dan sylw yn RCOG (2000) a NICE (2008).

- (1) Dylai offer uwchsain newydd gael eu prynu yn lle'r hen offer yn unol ag argymhellion Asiantaeth Prynu a Chyflenwi'r Gwasanaeth Iechyd (NHS PASA a rheoliadau HE1 98).

Safon US 9

Rhaid cofnodi holl ddarganfyddiadau'r sgan yn llawn ar y modiwl adrodd uwchsain.

- (1) Dylid defnyddio'r modiwl adrodd obstetrig RadIS2 i gofnodi manylion pob sgan dyddio cynnar a sgan anomaledd y ffetws.⁵
- (2) Dylai'r sawl sy'n gwneud yr archwiliad uwchsain greu neu awdurdodi'r adroddiad ynglŷn â'r sgan, a dylai'r adroddiad fod yn rhan annatod o'r archwiliad.
- (3) Dylai'r adroddiad gael ei greu cyn gynted â phosib ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau. Dylai'r adroddiad fod yn gryno ac yn glir.
- (4) Mae'r adroddiad am y sgan yn ddogfen gyfreithiol ac yn rhan o nodiadau meddygol yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gopiâu caled o'r delweddau, delweddau sydd wedi'u cadw ar gyfrifiadur, a/neu fideos. Rhaid eu storio am 25 mlynedd. Lle mae delweddau wedi cael eu cofnodi, efallai y byddan nhw'n cael eu defnyddio i gadarnhau neu i wrthbrofi cynnwys yr adroddiad.

⁵ Cafodd modiwl adrodd obstetrig RadIS2 ei greu i helpu sonograffwyr i gofnodi darganfyddiadau sganiau uwchsain cynnar a sganiau anomaledd y ffetws. Mae'n defnyddio fformat penodol ar gyfer cofnodi gwybodaeth ac ar gyfer argraffu adroddiadau. Bydd y modiwl yn cael ei roi ar waith yn ystod 2010/11. Os yw'r modiwl ar gael yn ardal y Bwrdd Iechyd, dylid ei ddefnyddio i greu adroddiadau am yr holl sganiau. Os nad yw'r modiwl ar gael eto, dylai'r drefn bresennol o greu adroddiadau uwchsain barhau.

- (5) Dylid cofnodi ar bob delwedd sy'n berthnasol i unrhyw fenyw ddigon o wybodaeth i'w hadnabod, a dyddiad ac amser yr achwiliad.
- (6) Dylid cadw cofnod llawn o ddarganfyddiadau sganiau uwchsain mewn fformat electronig.

7.1.6 Trefn y prawf

- (1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a gwneud y sgan uwchsain mewn ystafell sy'n sicrhau ei phreifatrwydd.
- (2) Dylai'r sonograffydd gadarnhau enw'r fenyw a gwneud yn sicr ei bod yn deall pwrpas y sgan uwchsain a'i bod hi wedi rhoi ei chaniatâd.

7.1.7 Trin y canlyniadau

Safon US 10

Os nad oes annormaledd yn dod i'r amlwg, dylai'r sonograffydd roi gwybodaeth lafar a thaflen ysgrifenedig i'r fenyw i esbonio canlyniad y sgan uwchsain.

Safon US 11

Dylid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth y ffaith fod y sgan uwchsain wedi cael ei wneud, a dylid cofnodi'r canlyniad hefyd.

- (1) Fel arfer, dylid argraffu copi o'r adroddiad am y sgan a'i gadw yn nodiadau mamolaeth y fenyw ar adeg gwneud y sgan.
- (2) Dylid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth y ffaith fod y fenyw wedi cael y canlyniad a bod cyfle wedi bod i'w drafod.

7.2 Safonau a phrotocolau penodol ar gyfer sganiau cynnar mewn beichiogrwydd

7.2.1 Trefn y prawf

Safon US 12

Yn ddelfrydol, dylai'r sgan gael ei drefnu a'i wneud rhwng wythnos 11 a 0 diwrnod ac wythnos 13 a 6 diwrnod o'r beichiogrwydd.

- (1) Os nad oes unrhyw arwyddion clinigol, nid oes gofyn trefnu apwyntiad rheolaidd arall i gael sgan cynnar os yw'r sgan yn digwydd bod wedi cael ei wneud ar ôl wythnos 8 a 4 diwrnod o'r beichiogrwydd, ond cyn wythnos 11 a 0 diwrnod, oni bai fod y fam wedi cael cyfle i gael y prawf cyfunol i sgrinio am syndrom Down.
- (2) Dylai'r sgan gael ei wneud y tu allan i'r abdomen. Os nad yw'n bosib cael delwedd dda, dylid cynnig naill ai sgan uwchsain trawsweiniol (trwy'r wain) i'r fenyw, neu gyfle arall i ddod yn ei hôl i gael sgan uwchsain arall y tu allan i'r abdomen.

- (3) Os yw'r sonograffydd yn cynnig sgan trawsweiniol i'r fenyw, dylid gofyn am ei chaniatâd llafar. Dylid nodi ei chaniatâd ym modiwl cofnodi gwaith radioleg ac, os yw hynny'n bosib, yn nodiadau mamolaeth y fenyw.
- (4) Dylid manteisio ar y cyfle cyntaf posib i gynnig sgan uwchsain i fenywod sy'n dechrau ar eu gofal cyn geni'n hwyr. Dylid amcangyfrif ym mha gam o'r cyfnod cario y mae hi.

Safon US 13

I gyfrifo'r cam yn y cyfnod cario, dylid mesur hyd y ffetws o'i gorun i'w ffolen (mesuriad CRL) hyd at wythnos 12 a 6 diwrnod o'r cyfnod cario (hynny yw, 66mm neu lai) a'r diamedr dwy-barwydol (mesuriad BPD) ar ôl wythnos 13 a 0 diwrnod (hynny yw, os yw'r CRL yn fwy na 66 mm).

Nodyn: Yng Nghymru, bydd y drefn o fesur cylch y pen (mesuriad HC, sef 98-150mm) yn hytrach na'r diamedr dwy-barwydol (BPD) yn ofynnol ac yn cael ei rhoi ar waith cyn bo hir. Pan mae'n mynd yn arfer clinigol yng Nghymru i fesur cylch y pen (HC), bydd y mesuriad uchaf ar gyfer CRL yn codi i 80mm (NHS FASP 2008⁶, Loughna et al 2009⁷).

- (1) Os oes cais wedi cael ei wneud am sgrinio am syndrom Down, dylai'r mesuriadau biometreg ar yr adroddiad fod o fewn y terfynau y mae'r labordy biocemegol yn eu defnyddio.⁸

Safon US 14

Fel isafswm safon, dylai'r sonograffydd nodi:

- a yw'r beichiogrwydd o fewn y groth
- pun a oes ffetws yno neu beidio
- pa mor hyfyw yw'r ffetws (hynny yw, calon yn curo a'r ffetws yn symud)
- y mesuriad CRL (hyd at 66mm) neu BPD fel sy'n briodol
- nifer y ffetysau ac, yn achos beichiogrwyddau lle mae mwy nag un, mesur o'r hylif corionig a'r amnion
- unrhyw annormaledd drwg sydd i'w weld ar y ffetws.

7.2.2 Sgrinio yn ystad y tri mis cyntaf

Safon US 15

Pan mae'r fenyw'n cael cyfle i gael prawf sgrinio am syndrom Down yn ystod tri mis cyntaf ei beichiogrwydd, rhaid nodi ar gerdyn y cais am y sgan uwchsain cynnar fod y fenyw wedi rhoi ei chaniatâd i'r prawf sgrinio am syndrom Down gael ei wneud.

Safon US 16

Rhaid bod y sonograffydd wedi cael ei hyfforddi i gymryd mesuriadau tryleuedd y gwegil, a dylai allu rhoi tystiolaeth ei fod yn gallu gwneud hynny'n foddhaol.

- (1) Dylai enw'r sonograffydd sy'n mesur tryleuedd y gwegil gael ei gofnodi ar gerdyn adrodd y sgan uwchsain ac ar gerdyn y cais am sgrinio am syndrom Down.

⁶ Rhaglen sgrinio anomaledd y ffetws y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (2008) Statement for the CRL conversion measurement and the algorithm to be used for Down's syndrome screening risk calculation. Ar gael ar <http://fetalanomaly.screening.nhs.uk/programmestements> (wedi'i wirio 29 Medi 2009).

⁷ Loughna, P., Chitty, L., Evans, T., Chudleigh, T. (2009) Fetal size and dating: charts recommended for clinical obstetric practice, *Ultrasound*, 17 (13), pp. 161–167.

⁸ Mae terfynau'r mesuriadau y mae'n bosib eu defnyddio'n dibynnu ar feddalwedd cyfrifiadurol y labordy. Mae'r terfynau'n amrywio o'r naill feddalwedd i'r llall. Oherwydd hyn, nid yw'r ddogfen hon yn crybwyll y terfynau, ond mae'n bosib eu cael o Sgrinio Cyn Geni Cymru.

- (2) Os nad yw'r broses o gael mesuriad o dryleuedd y gwegil yn llwyddiannus neu os oes mwy nag 13 a 6 diwrnod o'r cyfnod cario wedi mynd heibio, dylai'r fenyw gael cyfle i gael sgrinio am syndrom Down yn ystod yr ail gyfnod o dri mis.
- (3) Os yw tryleuedd y gwegil yn 3.5mm neu'n fwy, mae hwn yn ddarganfyddiad clinigol annormal. Dylid cyfeirio'r fenyw at obstetregydd neu radiologydd sy'n arbenigo ar uwchsain i ddilyn camau rheoli fel sydd dan sylw yn adran 7.2.3. Dylid cynnwys delwedd o dryleuedd y gwegil neu'r hygroma codennog gyda'r papurau cyfeirio.

7.2.3 Sganiau cynnar annormal mewn beichiogrwydd

Safon US 17

Os yw'r beichiogrwydd yn mynd yn ei flaen er bod problem wedi dod i'r amlwg, dylai'r sonograffydd drefnu cyfle o fewn 24 awr i'r fenyw drafod y darganfyddiadau gydag obstetregydd neu fydwraig sydd wedi'i hyfforddi'n briodol.

- (1) Pan mae problem wedi dod i'r amlwg, dylai'r sonograffydd yn y lle cyntaf roi gwybodaeth lafar i'r fenyw am y broblem bosib. Dylid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth y ffaith fod y broblem wedi cael ei thrafod.
- (2) Yna, dylai'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni (neu ei ddirprwy) neu obstetregydd roi gwybodaeth lafar i'r fenyw. Dylid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth y fenyw'r ffaith fod y broblem wedi cael ei thrafod.
- (3) Yn achos Byrddau Iechyd neu wasanaethau sydd ddim yn cynnig y prawf sgrinio cyfunol am syndrom Down, nid yw'r sgan beichiogrwydd cynnar yn cynnwys asesu neu fesur tryleuedd y gwegil.
- (4) Os oes hygroma codennog yn bresennol neu os yw tryleuedd y gwegil i'w weld yn fawr iawn ar ddelwedd ddamweiniol, mae hwn yn ddarganfyddiad clinigol. Dylid dweud wrth y fenyw a'i chyfeirio at obstetregydd neu radiologydd i gael mwy o wybodaeth a rheolaeth.
- (5) Dan yr amgylchiadau hyn, dylid cynnwys copi caled o'r ddelwedd o dryleuedd y gwegil neu'r hygroma codennog gyda'r papurau cyfeirio, os yw'r fenyw'n awyddus i gael ei chyfeirio am asesiadau pellach.

Safon US 18

Yn achos darganfyddiad(au) annormal ar sgan cynnar, rhaid cofnodi'n brydlon yn y nodiadau mamolaeth yr holl gamau a gafodd eu cymryd a'r math o ymateb sydd wedi'i fwriadu. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

Safon US 19

Yn achos canlyniad annormal i sgan uwchsain cynnar a lle nad oes gwasanaethau addas ar gael yn yr ardal, dylai'r fenyw gael apwyntiad i fynd i adran iechyd y ffetws i gael ei gweld o fewn tri diwrnod gwaith.

- (1) Dylid rhoi gwybod am yr anomaledd posib i CARIS (y gwasanaeth cofrestr a gwybodaeth am anomaleddau cynhenid) trwy'r modiwl adrodd RadIS2. Cyfrifoldeb y sonograffydd yw gofalu bod adroddiadau'n mynd at CARIS. Os nad yw modiwl adrodd RadIS2 ar gael, dylid mynd ati cyn gynted â phosib i lenwi `cerdyn hysbysu CARIS' ynglŷn ag anomaledd cynhenid posib, a'i anfon at gydgyssylltydd/swyddfa CARIS.

Nid oes gofyn cael caniatâd pwrpasol y fenyw cyn rhoi gwybod i CARIS. Mae gwybodaeth am bwrpas CARIS ac am hawl y fenyw i wrthod i CARIS ddefnyddio gwybodaeth amdani ym mhecyn gwybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru. (11)

7.3 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sganiau Uwchsain Anomaledd y Ffetws

7.3.1 Trefn y prawf

Safon US 20

Dylai sgan anomaledd y ffetws gael ei wneud fel arfer rhwng wythnos 18 a 0 diwmod ac wythnos 20 a 6 diwmod o'r beichiogrwydd.

Safon US 21

Os yw hynny'n bosib, dylid cyflawni'r isafswm safon y mae RCOG (2000) a NICE (2008) yn ei gosod ar gyfer adrodd am sgan uwchsain anomaledd y ffetws rhwng wythnos 18 a 0 diwmod ac wythnos 20 a 6 diwmod.

Nodyn: Bydd y safon yn cael ei hadolygu a'i newid yn sgil cyhoeddi yn ystod 2010 argymhellion rhaglen sgrinio anomaledd y ffetws y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol.

Safon US 22

Os yw hynny'n bosib, dylai'r sonograffydd lenwi'r rhestr wirio safonol sydd wedi'i chytuno ar gyfer sgrinio yng Nghymru.¹⁰

- (1) Dylai'r sgan anomaledd y ffetws fod yn cynnwys adroddiad am lif y gwaed allan o'r galon yn fuan iawn a chyn diwedd mis Medi 2010.¹¹
- (2) Yn yr achosion lle nad yw'r archwiliad cyntaf yn foddhaol neu fod y rhestr wirio'n anghyflawn ac mae'r sonograffydd yn amau fod annomaledd posib ar y ffetws, dylid mynd ati cyn gynted â phosib i ofyn am ail farn.
- (3) Os nad yw'n bosib cael delweddau addas sy'n caniatáu i'r rhestr wirio safonol gael ei chwblhau, dylid cynnig ail sgan uwchsain i'r fenyw. Dylid dweud wrthi fod nifer o resymau posib weithiau dros fethu â chwblhau'r rhestr wirio.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r rhesymau dros fethu â chwblhau'r rhestr wirio y mae ystyriaethau fel tueddiad yn y fam neu fynegai màs ei chorff, ffibroidau yn ei chroth neu greithiau yn ei habdomen, a/neu ystyriaethau fel y ffetws yn gorwedd mewn safle anodd ei gweld.
- (4) Dylai'r ail archwiliad gael ei wneud cyn diwedd wythnos 23 o'r beichiogrwydd.
- (5) Yn yr achosion lle nad yw'r sonograffydd yn gallu cwblhau'r rhestr wirio wrth wneud yr ail sgan, dylid dweud wrth y fenyw nad oedd cwblhau'r rhestr wirio yn bosib.
- (6) Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael o Sgrinio Cyn Geni Gymru am sganiau anomaledd y ffetws a oedd yn anghyflawn.

¹⁰ Dim ond rhai annomaleddau yng ngwneuthuriad y ffetws y mae'r sgan uwchsain anomaledd y ffetws yn gallu eu datgelu. Mae'n bwysig nodi nad yw 'sgan cyflawn o anomaledd y ffetws' yn golygu bod gwneuthuriad y ffetws o angenrheidrwydd yn normal ac nad oes unrhyw annomaleddau arno. Yr unig ystyr i'r term yw bod y sgan wedi cael ei gwblhau i'r safon sy'n ofynnol.

¹¹ Lle mae'r sonograffydd yn gallu gweld llif y gwaed allan o'r galon, dylid adrodd am gyflwr y llif ar fodiwl adrodd radiograffeg. Bydd gwneud hyn yn helpu byrddau iechyd a Sgrinio Cyn Geni Cymru i asesu'r effaith bosib ar y gwasanaeth o ymgorffori'r mesuriadau hyn yn y rhestr wirio safonol ar gyfer sganiau anomaledd y ffetws, ac i asesu unrhyw ofynion hyfforddiant.

Safon US 23

Dylai'r darganfyddiadau penodol sy'n dilyn dal i gael eu cyfeirio i gael asesiadau pellach:

- Plyg yn y gwegil
- Fentrigl sy'n fawr
- Coluddyn ecogenig
- Aren yn ymledu i'r pelfis.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn ag adrodd ar ddarganfyddiadau penodol (marcwyr uwchsain). Bydd y canllawiau'n cael eu diweddarau pan fydd canlyniadau'r Astudiaeth o Famau a Babanod yng Nghymru ar gael.

7.3.2 Annormaledd ar sgan uwchsain anomaledd y ffetws

Safon US 24

Lle mae anomaledd ar y ffetws yn dod i'r amlwg, dylai'r sonograffydd drefnu i obstetregydd neu fydwrraig sydd wedi'i hyfforddi'n briodol fynd ati o fewn 24 awr i drafod y darganfyddiadau â'r fenyw.

Safon US 25

Yn achos unrhyw ddarganfyddiad(au) annormal, rhaid cofnodi'n brydlon yn y nodiadau mamolaeth yr holl gamau a gafodd eu cymryd a'r math o ymateb sydd wedi'i fwriadu. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

- (1) Pan mae problem wedi dod i'r amlwg, dylai'r sonograffydd yn y lle cyntaf sôn yn llafar wrth y fenyw am y broblem. Dylid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth y ffaith fod y broblem wedi cael ei thrafod.
- (2) Dylai'r cydgysylltydd sgrinio cyn geni (neu ei ddirprwy) neu obstetregydd roi gwybodaeth lafar i'r fenyw hefyd. Dylid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth y fenyw'r ffaith fod y broblem wedi cael ei thrafod.

Safon US 26

Yn achos canlyniad annormal i sgan uwchsain anomaledd y ffetws a lle nad oes gwasanaethau addas ar gael yn yr ardal, dylai'r fenyw gael cyfle i gael apwyntiad mewn adran iechyd y ffetws i gael ei gweld o fewn tri diwrnod gwaith.

Safon US 27

Ar ôl canlyniad sydd wedi'i gadarnhau o anomaledd ar galon y ffetws, dylai cardiologydd y ffetws weld y fenyw o fewn tri diwrnod gwaith.

Isafswm safon 90%

- (1) Dylid rhoi gwybod am unrhyw anomaledd posib i CARIS (y gwasanaeth cofrestr a gwybodaeth am anomaleddau cynhenid) trwy'r modiwl adrodd RadIS2. Cyfrifoldeb y sonograffydd yw gofalu bod adroddiadau'n mynd at CARIS. Os nad yw modiwl adrodd RadIS2 ar gael, dylid mynd ati cyn gynted â phosib i lenwi 'cerdyn hysbysu CARIS' ynglŷn ag anomaledd cynhenid posib, a'i anfon at gydgysylltydd/swyddfa CARIS.
- (2) Nid oes gofyn cael caniatâd pwrpasol y fenyw cyn rhoi gwybod i CARIS. Mae gwybodaeth am bwrpas CARIS ac am hawl y fenyw i wrthod i CARIS ddefnyddio gwybodaeth amdani ym mhecyn gwybodaeth Sgrinio Cyn Cymru. (11)

8.0 Sgrinio Cyn geni i Adnabod y Grŵp Gwaed ac i Fesur Gwrthgyrff

Datganiad polisi

Dylai sgrinio cyn geni i adnabod y grŵp gwaed ac i fesur gwrthgyrff gael ei gynnis yn ystod beichiogrwydd i bob menyw sy'n byw yng Nghymru (NICE 2008).

Grŵp gwaed a gwrthgyrff celloedd coch

Mae pedwar prif fath o grŵp gwaed: grŵp O, grŵp A, grŵp B a grŵp AB. Mae math arall o ffactor gwaed o'r enw'r grŵp Rhesws (Rh), ac mae gan bobl grŵp gwaed a grŵp rhesws Rh, er enghraifft, grŵp O Rh bositif. Protein yw'r ffactor Rh, sydd i'w gael yng nghelloedd coch y gwaed mewn tua 85% o bobl. Os yw'r protein yn bresennol, mae'r person yn cael ei ddynodi fel RhD-bositif. Os nad yw'r protein yn bresennol, mae'r person yn RhD-negatif.

Pan mae'r fam yn RhD-negatif a'r babi'n RhD-bositif, mae'n bosib i wrthgyrff drosglwyddo o lif gwaed y fam i mewn i'r ffetws. Gallai hyn achosi cyflwr prin o'r enw Clefyd Haemolytig y Newydd-anedig (HDN). O safbwynt clinigol, gwrthgyrff ffactor Rhesws yw'r rhai mwyaf cyffredin a'r mwyaf arwyddocaol, ond mae nifer o fathau eraill o brotein yn y celloedd coch (fel Kell, c, Duffy a Kidd) hefyd yn gallu gwneud i'r fam greu gwrthgyrff IgG. Byddai hyn hefyd yn arwain at yr un math o broblemau ag y mae gwrthgyrff ffactor Rhesws yn eu hachosi.

Y rhesymeg dros sgrinio

Dylai sgrinio cyn geni i bennu'r grŵp gwaed ac i fesur gwrthgyrff gael ei gynnis i bob menyw feichiog yn gynnar yn ei beichiogrwydd, waeth beth oedd canlyniadau profion sgrinio blaenorol. Dylai'r cynnis fod yn rhan annatod o'i gofal cyn geni. Os yw'r sgrinio'n canfod unrhyw wrthgyrff (er enghraifft, gwrth-D, gwrth Kell neu wrth-c), mae'n bosib monitro'r gwrthgyrff a chynnig gofal obstetrig priodol. Os yw profion yn dangos bod y ffetws mewn perygl neu fod perygl i'r babi newydd-anedig fod â chlefyd haemolytig y newydd-anedig (HDN), sy'n cael ei achosi am fod y ffactor rhesws yn anghydnaws (er enghraifft, mewn menywod RhD-negatif), gellir cynnis proffylacsis gwrth-D i'r fenyw.

Y canlyniad disgwylidig

Lleihau nifer yr achosion o HDN mewn babanod newydd-anedig a chwtdogi ar y problemau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd.

8.1 Gwybodaeth cyn y prawf

Safon BG 1

Rhaid i'r fenyw gael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig cyn y prawf, a rhaid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth pa wybodaeth mae hi wedi'i chael.

- (1) Dylai'r fenyw gael copi o becyn gwybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru (mewn iaith a fformat addas, os ydyn nhw ar gael) cyn gofyn iddi roi ei chaniatâd i'r prawf gael ei wneud. (1)
- (2) Rhaid i'r fydwraig esbonio pwrpas, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y profion sgrinio hyn i'r fenyw. (2)
- (3) Dylai'r fydwraig gofnodi pa wybodaeth ysgrifenedig y mae hi wedi'i rhoi i'r fenyw, a chofnodi unrhyw wybodaeth ar ffurf arall (er enghraifft, gwybodaeth ar DVD neu CD sain). (3)

8.2 Cynnig y prawf sgrinio

Safon BG 2

Dylai'r prawf sgrinio gael ei gynnis a dylai'r sampl gael ei chymryd cyn wythnos 13 o'r bechiogrwydd ac unwaith eto tua wythnos 28 o'r bechiogrwydd, waeth beth yw statws RhD y fam (y pwyllgor Prydeinig ar gyfer safonau mewn haematoleg (BCSH) 2008; NICE 2008).

- (1) Dylid manteisio ar y cyfle cyntaf posib i gynnis y prawf sgrinio i fenywod sy'n dechrau ar eu gofal cyn geni ar ôl wythnos 13 o'r bechiogrwydd.

8.3 Caniatâd

Safon BG 3

Cyn i'r prawf gael ei wneud, rhaid i'r fenyw roi ei chaniatâd llafar sydd wedi'i seilio ar wybodaeth.

- (1) Nid oes angen caniatâd ysgrifenedig ond rhaid cofnodi caniatâd llafar y fenyw yn y nodiadau mamolaeth.

8.4 Gwneud cais am brawf

Safon BG 4

Rhaid i ffurflen gais y labordy gynnwys enw a llofnod y sawl sy'n gofyn am y prawf. Rhaid i ddull electronig o ofyn am brawf fod â llwybr archwilio clir ar gyfer adnabod y sawl sy'n gofyn amdano.

Safon BG 5

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf, lenwi a llofnodi'r ffurflen gais. (4)

Safon BG 6

Rhaid i'r geiriau `sgrinio cyn geni' ddynodi natur y cais. Rhaid nodi hefyd a gafodd y sampl ei chymryd ar adeg derbyn y fam i'w gofal cyn geni, neu yn ystod wythnos 28.

Safon BG 7

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol ar y ffurflen gais i'r labordy.

- (1) Os yw'r fenyw wedi cael proffylacsis gwrth-D, rhaid nodi hynny ar gerdyn cais y labordy. Gallai'r proffylacsis effeithio ar y broses o ddehongli canlyniadau'r prawf.

8.5 Trefn y prawf

Safon BG 8

Rhaid i'r sawl sy'n cymryd y sampl gofnodi yn y nodiadau mamolaeth y dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd, a rhaid i'r person hwnnw lofnodi'r cofnod.

- (1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a gwneud y prawf gwaed mewn lle sy'n sicrhau ei phreifatrwydd.

Safon BG 9

Rhaid i'r gwasanaethau mamolaeth ddatblygu system glir ar gyfer cadarnhau i bwy mae sampl yn perthyn.

- (1) Rhaid i'r drefn hon gynnwys gofyn i'r fenyw gadarnhau ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad. Rhaid i'r rhain fod yn gwbl gyson â'r wybodaeth ar y ffurflen gais a'r sampl.

8.6 Gwasanaethau labordai

Safon BG 10

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol dan drefn achredu patholegol clinigol (CPA, sydd bellach yn rhan o UKAS (gwasanaeth achredu'r Deyrnas Unedig)). Rhaid bod y labordy'n gallu rhoi tystiolaeth fod ei berfformiad yn foddhaol.

Safon BG 11

Dylid mynd ati i wneud y prawf sgrinio am wrthgyrff trwy ddefnyddio prawf gwrth-globwlin anuniongyrchol a phanel celloedd coch sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r Deyrnas Unedig (NICE 2008).

- (1) Dylai'r labordy lleol gynnig cyngor ynglŷn â gofynion y sampl gan y bydd y gofynion yn amrywio o labordy i labordy. Dylid profi'r sampl i ganfod y grŵp gwaed ac alo-wrthgyrff annodweddiadol yn y celloedd coch.

Safon BG 12

Dylai'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei chymryd. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

Safon BG 13

Os yw'r sampl yn cael ei hanfon at labordy arall, dylai gyrraedd y labordy arall o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd ei chymryd.
Isafswm safon ddatblygiadol 90%

Safon BG 14

Dylai'r labordy sy'n gwneud y prawf anelu at anfon canlyniadau'r profion ar y samplau o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad y daeth y sampl i law.
Isafswm safon ddatblygiadol 90%

8.7 Trin y canlyniadau

Safon BG 15

Os nad y labordy lleol sydd wedi gwneud y prawf ar y sampl, dylai'r canlyniad gael ei anfon yn ôl i'r labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaeth y labordy arall gwblhau'r prawf. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

Safon BG 16

Dylai'r canlyniad fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn un diwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaeth y labordy lleol y prawf neu i'r dyddiad y daeth y canlyniad i law o'r labordy a oedd yn gwneud y prawf. *Isafswm safon ddatblygiadol 90%*

- (1) Dylai'r canlyniadau gael eu rhoi i'r tîm clinigol sy'n gofalu am y fenyw yn ystod ei beichiogrwydd. Ni ddylai labordai roi canlyniadau i weithwyr iechyd proffesiynol dros y ffôn fel arfer, oni bai fod rheswm clinigol da dros wneud hynny wedi'i ddisgrifio yn y llwybrau gofal lleol ar gyfer trin canlyniadau.

8.8 Canlyniad Rhesws-bositif, gwrthgyrff-negatif

Safon BG 17

Dylai'r gwasanaeth mamolaeth roi'r canlyniad i'r fenyw o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd. *Isafswm safon 90%*

- (1) Dylai'r fenyw gael gwybod ei bod hi'n RhD-bositif, ac na fydd angen proffylaxis gwrth-D arni. Yr awgrym yw sgrinio unwaith eto yn ystod wythnos 28 y beichiogrwydd am alo-wrthgyrff annodweddiadol yn y celloedd coch (BCSH 2008; NICE 2008).

Safon BG 18

Rhaid bod trefn wedi cael ei chreu ar gyfer adnabod a mynd ar ôl canlyniadau sydd heb ddod i law.

Safon BG 19

Rhaid cofnodi'r canlyniad yn y nodiadau mamolaeth.

- (1) Rhaid cofnodi yn y nodiadau mamolaeth y ffaith fod y fenyw wedi cael cyfle i drafod y canlyniad. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

8.9 Canlyniadau Rhesws D-negatif, gwrthgyrff-negatif

Safon BG 20

Dylai'r gwasanaeth mamolaeth roi'r canlyniad i'r fenyw o fewn 15 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd. *Isafswm safon 90%*

Safon BG 21

Dylid dweud wrth y fenyw am oblygiadau bod yn Rhesws-negatif.

Safon BG 22

Dylai pob menyw sy'n RhD-negatif gael gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig am broffylacsis gwrth-D yn y cyfnod cyn y geni ac ar ôl y prawf. Dylen nhw gael cyfle yn ystod y cyfnod cyn geni i drafod y driniaeth hon â bydwraig.

- (1) Mae gwybodaeth ym mhecyn gwybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru am fod yn RhD-negatif. Mae'r pecyn yn cynnig gwybodaeth am roi gwybod i weithiwr iechyd proffesiynol os oes digwyddiad sensiteiddio posib yn digwydd.
- (2) Argymhelliad NICE (2008) yw bod pob menyw feichiog sydd heb ei sensiteiddio ac sy'n RhD-negatif, yn cael cyfle rheolaidd yn ystod y cyfnod cyn geni i gael proffylacsis gwrth-D. Dylai pob gwasanaeth mamolaeth fod wedi creu trefn ar gyfer cynnig a rhoi proffylacsis gwrth-D yn ystod y cyfnod cyn geni. (7) (8)
- (3) Dylai byrddau iechyd fod wedi sefydlu protocol priodol ar gyfer cynnig triniaeth gyn-geni briodol ar ôl digwyddiad sensiteiddio ac ar gyfer proffylacsis gwrth-D yn y cyfnod ar ôl y geni. Yn achos digwyddiad o'r fath, dylid cynnig proffylacsis gwrth-D (250 IU os nad yw'r fenyw wedi cyrraedd wythnos 20 o'r beichiogrwydd, a 500 IU os yw wedi mynd heibio wythnos 20). Os yw'r fenyw'n cytuno i gael y driniaeth, dylid ei rhoi cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad sensiteiddio ac yn sicr o fewn 72 awr (RCOG 2002b).
- (4) Dylid cynnig sgrinio Kleihauer ar ôl digwyddiad sensiteiddio posib mewn beichiogrwydd ar ôl wythnos 20 neu ar ôl y geni. Efallai y bydd angen dosys ychwanegol o broffylacsis gwrth-D a bydd y labordy'n cynghori ynglŷn â hyn ar ôl y sgrinio Kleihauer.

8.10 Canlyniadau gwrthgyrff-bositif

Safon BG 23

Os oes gwrthgyrff yn cael eu canfod, dylid adnabod pa wrthgyrff ydyn nhw. Os oes angen, dylai'r labordy roi mesur o'u maint er mwyn asesu a yw'n debygol y bydd y babi newydd-anedig yn cael clefyd haemolytig.

- (1) Mae nifer fawr o wrthgyrff sy'n gallu achosi clefyd haemolytig ar fabi newydd-anedig. Os yw'r labordy'n canfod gwrthgyrff arwyddocaol, dylen nhw ffonio'r obstetregydd ymgynghorol, y cydgysylltydd sgrinio cyn geni neu ei ddirprwy i roi gwybod iddyn nhw.
- (2) Mae angen cadarnhau canlyniad y prawf mewn labordy cyfeirio, cyn cyfeirio'r fam at uned meddygaeth y ffetws.

Safon BG 24

Dylid gwneud trefniadau i'r fenyw ddod yn ei hôl i'r clinig cyn geni i gael ei chanlyniad gwrthgyrff-bositif.

- (1) Os oes angen, dylid trefnu gwasanaethau cyfieithydd.
- (2) Bydd y broses o reoli'r beichiogrwydd yn dibynnu ar arwyddocâd clinigol a titr y gwrthgyrff dan sylw.
- (3) Dylid cynnig cyfeirio menywod bechiog sydd ag aol-wrthgyrff annodweddiadol ac arwyddocaol yn y celloedd coch, at ganolfan arbenigol.

8.11 Cynllun gofal

Safon BG 25

Rhaid cofnodi'n brydlon yn y nodiadau mamolaeth yr holl gamau a gafodd eu cymryd a'r math o ymateb sydd wedi'i fwriadu fel ymateb i statws RhD-negatif a gwrthgyrff y fenyw. Rhaid llofnodi'r cofnod a rhoi'r dyddiad.

- (1) Dylai fod cynllun gofal sydd wedi'i lofnodi ac sy'n dangos y dyddiad yn y nodiadau i nodi'r proffylacsis gwrth-D ac i nodi'r dyddiad y cafodd ei roi.

8.12 Gofal ar ôl y geni

Safon BG 26

Yn achos menywod RhD-negatif (a menywod lle nad oes gwybodaeth am grŵp Rhesws y fam), bydd gofyn cymryd sampl gan y fam ar ôl i'r babi gael ei eni (o fewn dwy awr). Bydd angen sampl o'r gwaed yn y llinyn hefyd.

- (1) Yn achos menywod Rhesws D-negatif sydd wedi geni plentyn Rhesws D-bositif, mae angen samplau gan y fam a sampl o waed y llinyn er mwyn asesu gwaedlif y fam a'r ffetws a phun a oes angen proffylacsis gwrth-D ychwanegol ar y fam.

Safon BG 27

Os yw'r babi'n RhD-bositif, dylai'r gwasanaeth mamolaeth gynnig proffylacsis gwrth-D ar ôl y geni, ac o fewn 72 awr i'r geni, i fenywod RhD-negatif sydd heb eu sensiteiddio (RCOG 2002b).

Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ddogfen ymgynghorol

Unigolion

Carol Evans – Dirprwy Bennaeth Gwasanaeth Labordy Biocemeg Feddygol ac Imiwnoleg, Ysbyty Athrofaol Cymru
Jo Sperduti – Cydgysylltydd Sgrinio Cyn Geni'r Ymddiriedolaeth, Ysbyty Brenhinol Gwent
Julie Richards – Pennaeth Bydwreigiaeth ac Iechyd Rhywiol, Bwrdd Iechyd Lleol Powys
Liz Boxall – Gwyddonydd Clingol Ymgynghorol, Asiantaeth Diogelu Iechyd, Ymddiriedolaeth Sefydledig Canol Lloegr
Lynne Francis – Sonograffydd Arolygol, Ysbyty Brenhinol Morgannwg
Mandy Staffer – Cydgysylltydd Sgrinio Cyn Geni'r Ymddiriedolaeth, Ysbyty Maelor Wrecsam
Pat Tookey – Uwch Ddarlithydd, Canolfan Epidemioleg MRC ar gyfer Iechyd Plant, Athrofa Iechyd Plant Coleg Prifysgol Llundain
Samantha Ray – Nyrs Diogelu Iechyd, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru
Selwyn Roberts – Pennaeth y Labordy Cytogeneteg, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaeth Geneteg Labordai Cymru, Sefydliad Geneteg Feddygol, Ysbyty Athrofaol Cymru
Fran Rushworth – Obstetregydd a Gynaecolegydd Ymgynghorol, Ysbyty Tywysoges Cymru
Wendy Williams – Radiograffydd Arolygol, Ysbyty Llandoche

Sefydliadau

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, y Gyfarwyddiaeth Menywod ac Iechyd Plant
Prif Nyrs Cymru Gyfan, Iechyd Rhywiol ac Atgynhyrchiol Integredig, Grŵp Cyngori Proffesiynol British Association of Sexual Health and HIV – Cangen Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Cymdeithas Syndrom Down
Bwrdd Iechyd Lleol Gwent, Cyfarwyddwyr Nyrsio
Rhaglen sgrinio anomaledd y ffetws y Gwasanaeth Iechyd (NHS FASP)
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru
Cymdeithas a Choleg y Radiograffwyr
Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru
Coleg Brenhinol y Bydwagedd
Coleg Brenhinol y Radiolegwyr
Elusen Tiny Tickers
Ysbyty Athrofaol Cymru, Uned y Galon ar gyfer Plant Cymru
Ysbyty Athrofaol Cymru, Adran Firoleg
Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru
Pwyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru

Cyfeiriadau

Antenatal Screening Wales (2004) Specific Antenatal Ultrasound Findings Guidelines for Health Professionals in Wales. Cardiff: Velindre NHS Trust.

British Association for Sexual Health and HIV (BASHH) (2008) UK National Guidelines on the Management of Syphilis. International Journal of STD & AIDS. Volume 19, 729-740.

British Committee for Standards in Haematology (2008) Available from: www.bcshguidelines.com (Accessed on 14/01/09).

British National Formulary (2009) BNF 57 2009. London: Pharmaceutical Press.

Clinical Pathology Accreditation UK. Available from: www.cpa-uk.co.uk. (Accessed on 23/03/09).

Cylchlythyr Iechyd Cymru (1998) Rhif 36 Sgrinio Menywod Beichiog am Hepatitis B ac Imiwneiddio Babanod Sydd Mewn Perygl. Caerdydd: y Swyddfa Gymreig.

Cylchlythyr Iechyd Cymru (2003a) Rhif 94 Diogelu Menywod a Gweithwyr Iechyd rhag Rwbela: Newid o Frechiad Rwbela Unigol at MMR. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cylchlythyr Iechyd Cymru (2003b) Rhif 127 Blaenoriaethau Blynyddol a Chanllawiau Cynllunio ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol 2004-05. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) Sgrinio Cyn Geni i Leihau'r Achosion o Drosglwyddo HIV o'r Fam i'r Babi. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Department of Health (2006) Immunisation Against Infectious Diseases – 'The Green Book' Available from www.dh.gov.uk/en/Publichealth/Healthprotection/Immunisation/Greenbook/DH_4097254. (Accessed on 24/09/09).

Department of Health (2009) Immunisation Against Infectious Diseases – 'The Green Book' : Download Updates to Chapter 18. Available from www.dh.gov.uk/en/Publichealth/Healthprotection/Immunisation/Greenbook/DH_4097254. (Accessed on 24/09/09).

Dewisiadau – Argymhellion ar gyfer Darparu a Rheoli Sgrinio Cyn Geni yng Nghymru (2002) Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Caerdydd. Ar gael ar: www.antenatalscreening.org. www.fetalanomaly.screening.nhs.uk/dqass (Accessed on 15/03/10).

Down's Syndrome Screening Quality Assurance Support Service. Available from: www.fetalanomaly.screening.nhs.uk/dqass. (Accessed on 23/03/09).

Loughna, P., Chitty, L., Evans, T. and Chudleigh, T. (2009) Fetal size and dating: charts recommended for clinical obstetric practice. Ultrasound. Volume 17, Number 3. Pages 151–167.

NHS Fetal Anomaly Screening Programme (FASP) (2008) NHS Fetal Anomaly Screening Programme – Screening for Down's syndrome: UK NSC Policy Recommendations 2007-2010: Model of Best Practice. Exeter: NSC.

NHS Purchasing and Supply Agency. Available from: www.pasa.nhs.uk. (Accessed on 23/03/09).

NHS Sickle Cell and Thalassaemia Screening Programme (2009) Sickle Cell and Thalassaemia Handbook for Laboratories. London: Oakdean Commercial Design and Print.

NICE (2008) CG62. Antenatal Care: Routine Care for the Healthy Pregnant Woman. London: RCOG Press.

NSC (2007) Antenatal Screening – Working Standards for Down’s Syndrome Screening 2007. Exeter: NSC.

NSC (2008) NHS Fetal Anomaly Screening Programme – Screening for Down’s Syndrome: UK NSC Policy Recommendations 2007-2010: Model of Best Practice. Exeter: DH.

Royal College of Obstetricians and Gynaecologists (RCOG) (2000) Routine Ultrasound Screening in Pregnancy, Protocols, Standards and Training. Supplement to Ultrasound Screening for Fetal Abnormalities. Report of the RCOG working party. London: RCOG Press.

Royal College of Obstetricians and Gynaecologists (2002a) Advice on Planning Services in Obstetrics and Gynaecology. London: RCOG Press.

Royal College of Obstetricians and Gynaecologists (2002b) Use of Anti-D Immunoglobulin for Rh Prophylaxis (22). London: RCOG Press.

Royal College of Obstetricians and Gynaecologists (2005) Amniocentesis and Chorionic Villus Sampling (8). London: RCOG Press.

United Kingdom National External Quality Assessment Service. Available from: www.ukneqas.org.uk. (Accessed on 23/03/09).

Adnoddau eraill a oedd o help wrth baratoi’r ddogfen hon

Antenatal and Newborn Screening Programme (2006) Sickle Cell and Thalassaemia Handbook For Laboratories. London: NHS Sickle Cell and Thalassaemia Screening Programme.

Cylchlythyr Iechyd Cymru (2008) Rhif 36 Canllaw Arferion Da wrth Roi Caniatâd ar Waith: rhoi caniatâd ar gyfer archwiliadau neu driniaethau. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Caerdydd.

Department of Health (2003) Screening for Infectious Diseases in Pregnancy. Standards to Support the UK Antenatal Screening Programme. London.

Fetal Anomaly Screening Programme Available from: www.fetalanomaly.screening.nhs.uk (Accessed on 15/03/10).

Royal Pharmaceutical Society of Great Britain (2008) British National Formulary, 56. London.

Nodiadau esboniadol

1. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n cynnig gwybodaeth ysgrifenedig i fenywod ar ffurf taflenni ac `e-dafleni' mewn nifer o ieithoedd ar www.antenalscreeningwales.org. Efallai fod gwybodaeth ysgrifenedig addas arall ar gael o nifer o wefannau a chyrrff gwirfoddol. Ond dylai'r gweithiwr iechyd proffesiynol ofalu bod y cynnwys yn addas cyn argymhell y wybodaeth.
2. Rhaid i wybodaeth lafar gael ei rhoi i'r fenyw mewn iaith y mae hi'n ei deall, gyda help cyfieithydd/dehonglwr sydd wedi'i hyfforddi os oes angen.
3. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n cynnig peth gwybodaeth mewn iaith Arwyddion Prydain gydag isdeitlau, ar CD sain neu DVD/ fideo.
4. Trwy lofnodi ffurflen gais y labordy neu'r ffurflen i wneud cais am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gwneud y cais yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig a/ neu lafar am bwrpas y prawf neu'r sgan, a'i bod hi wedi rhoi ei chaniatâd deallus i'r prawf/ sgan gael ei wneud.
5. Cyn gynted â phosib ar ôl y geni ac ar ôl gofyn am ganiatâd y rhieni, dylai babanod cyfnod llawn gael brechiad yn ôl statws hepatitis B y fam, fel sydd dan sylw yn y tabl sy'n dilyn. (Mae gwybodaeth am frechu babanod cynnar yn y `Green Book'.) Dylai'r fydwraig gydweithio â'r paediatregydd i ofalu bod hyn yn digwydd cyn gynted â phosib ac o fewn 24 awr i'r geni fan bellaf.

Hepatitis B status of mother	Baby should receive	
	Hepatitis B vaccine	HBIG
Mother is HBsAg positive and HBeAg positive	Yes	Yes
Mother is HBsAg positive, HBeAg negative and anti-HBe negative	Yes	Yes
Mother is HBsAg positive where e-markers have not been determined	Yes	Yes
Mother had acute hepatitis B during pregnancy	Yes	Yes
Mother is HBsAg positive and anti-HBe positive	Yes	No
A woman who is HBsAg sero-positive and known to have an HBV DNA level equal or above 1×10^6 IU/ml in an antenatal sample*.	Yes	Yes

* Lle mae prawf i fesur y llwyth firaol wedi cael ei wneud fel sail i'r gwaith o reoli'r fam. (Wedi'i addasu o Adran Iechyd 2009).

Bydd gofyn brechu'r babi eto pan mae'n fis oed, yn ddeufis oed ac yn flwydd oed. Dylid gwneud prawf gwaed pan mae'r babi'n 15 mis oed i wirio'i imiwnedd

6. Dylai'r fenyw gael cyfle cyn gynted â phosib yn y beichiogrwydd i gael sgrinio am gryman-gell a thalasaemia, er mwyn i CVS (samplu filysau corionig) fod yn ddewis posib. Er ei bod hi'n bosib gwneud CVS ar ôl wythnos 13 o'r cyfnod cario (RCOG 2005), mae'n cael ei wneud fel arfer rhwng wythnosau 10 ac 13.

7. Yn ôl NICE (2008): *'In the case where a woman is Rhesus D-negative, consideration should also be given to offering partner testing because, if the biological father of the baby is negative as well, anti-D prophylaxis, which is a blood product will not need to be administered'.*

8. Mae NICE (2008) hefyd yn dweud: *'Other situations where anti- D prophylaxis may not be necessary include cases where a woman has opted to be sterilised after the birth of the baby or, when a woman is otherwise certain that she will not have another child after the current pregnancy'.*

9. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n cynnig canllawiau manwl i weithwyr iechyd proffesiynol ynglŷn â llenwi'r ffurflen gais.

10. 'Sonograffydd' yw'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'i gymhwyso i wneud sganiau uwchsain ac sy'n gwneud yr archwiliadau uwchsain. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw reoliadau'n rheoli'r gwaith o wneud sganiau uwchsain.

Ar ôl rhoi sylw i argymhellion cyrff proffesiynol perthnasol, dylai byrddau iechyd ddewis eu gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r galluoedd i wneud sganiau uwchsain anomaledd y ffetws a sganiau dyddio yn gynnar mewn beichiogrwydd.

Bydd Sgrinio Cyn Geni Cymru'n ystyried y posibilrwydd o weld Byrddau Iechyd yn cynnal rhestr o'r sonograffwyr y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u hawdurdodi i wneud sganiau uwchsain anomaledd y ffetws a sganiau dyddio. Bydd yn defnyddio gwybodaeth o fodiwl adrodd RadIS2 i wneud hyn.

11. Mae CARIS yn gweithredu dan Adran 60. Mae Adran 60 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 yn rhoi'r hawl i gyrff ddefnyddio gwybodaeth sy'n enwi cleifion, heb eu caniatâd, os yw'r wybodaeth yn hanfodol i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol wneud ei waith. Dim ond fel sail i waith meddygol y gall yr hawl gael ei ddefnyddio, os yw'r gwaith hwnnw er lles y claf neu'r cyhoedd yn gyffredinol, nid yw gofyn am ganiatâd yn ddewis ymarferol ac ni fyddai data di-enw'n gwneud y tro.

